Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 25/2022

Dyddiad Cyhoeddi: 31/03/2022

# Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant: Gwerthusiad Interim o'r Broses a'r Canlyniadau

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-867-9

Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant: Gwerthusiad Interim o'r Broses a'r Canlyniadau

Awduron: Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

ISBN: 978-1-80391-867-9
© Hawlfraint y Goron, 2022

## Cynnwys

Geirfa ..... 2
1. Cyflwyniad ..... 3
2. Methodoleg ..... 5
3. Datblygiadau strategol a datblygiadau polisi diweddar ..... 9
4. Cynnydd yn erbyn argymhellion y gwerthusiad ..... 18
5. Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru ..... 31
6. Gweithredu'r rhaglen ..... 37
7. Profiadau sefydliadau a gefnogir ..... 47
8. Casgliadau ac argymhellion ..... 65

## Rhestr o'r tablau a'r ffigurau

Tabl 4.1: Argymhellion y gwerthusiad proses a'r ddamcaniaeth newid ..... 18
Ffigur 4.1 Model Damcaniaeth Newid Diwygiedig CDC ..... 20
Tabl 4.2: Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Chanlyniadau'r Rhaglen ..... 25
Ffigur 5.1: Aelodau DIAW a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd wedi mabwysiadu Siarter CDC ..... 33
Ffigur 5.2: Y gwahaniaeth y mae'r ymatebwyr i'r arolwg yn disgwyl i flaenoriaethau DIAW ei wneud i allgáu digidol yng Nghymru ..... 34
Tabl 6.1: Perfformiad rhaglen dros 20 mis cychwynnol o weithgaredd ..... 42
Tabl 6.2: Perfformiad y rhaglen yn erbyn y DPA diwygiedig (Ebrill 2021 – Mehefin 2022)... 44

## Geirfa

| **Acronym/Allweddair** | **Diffiniad** |
|---|---|
| AaGIC | Addysg a Gwella Iechyd Cymru |
| AGC | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| BIPAB | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| BIPBC | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| BIPCF | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Bro Morgannwg |
| CDC | Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (2019-2022) |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| DHCW | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| DIAW | Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru |
| DPA | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
| EYST | Tîm Cefnogi Pobl Ifanc a Lleiafrifoedd Ethnig |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| NWIS | Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Cymunedau Digidol Cymru (CDC): Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant. Rhaglen tair blynedd gan Lywodraeth Cymru yw CDC: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant sy'n anelu at leihau allgau digidol a helpu i wella sgiliau digidol sylfaenol ledled Cymru.

1.2 Nodau'r gwerthusiad yw:

- adolygu a chrynhoi'r dystiolaeth bresennol ynghylch y berthynas rhwng cynhwysiant digidol ac iechyd
- adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ffordd y cyflwynwyd y rhaglen
- asesu i ba raddau y mae nodau'r rhaglen wedi'u cyflawni a'r targedau wedi'u cyrraedd
- darparu tystiolaeth o ganlyniadau'r rhaglen i unigolion a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.

1.3 Mae'r gwerthusiad yn cael ei gynnal ar draws tri cham allweddol. Roedd y cam cyntaf yn cynnwys paratoi gwerthusiad proses ac adroddiad damcaniaeth newid yn ystod 2020[1]. Mae’r gwerthusiad interim hwn o'r broses a'r canlyniadau a gynhaliwyd yn ystod 2021 yn cyflwyno canfyddiadau’r ail gam a chynhelir gwerthusiad terfynol crynodol yn ystod 2022, ond gallai amseriad y trydydd cam hwn newid pe bai’r rhaglen yn cael ei hymestyn i 2025.

1.4 Mae’r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil desg a gwaith maes a wnaed gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, staff cyflawni, sefydliadau a gefnogir a buddiolwyr y rhaglen. Bwriedir iddo adrodd ar effeithlonrwydd a chynnydd y rhaglen yn ogystal â'r canlyniadau cynnar.

1.5 Mae wyth pennod i'r adroddiad hwn, fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad

[1] Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (crynodeb o'r gwerthusiad proses a damcaniaeth newid) | LLYW.CYMRU

- pennod dau: methodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: diweddariad am y cyd-destun strategol a pholisi ar gyfer y rhaglen CDC er paratoi'r adroddiad gwerthuso cam cyntaf yn 2020
- pennod pedwar: myfyrio ar sut y gweithredodd CDC argymhellion yr adroddiad gwerthusiad proses a damcaniaeth newid
- pennod pump: ystyried cynnydd a chyflawniadau Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (DIAW)
- pennod chwech: ystyried gweithrediad y rhaglen, gan gynnwys ei pherfformiad hyd yma
- pennod saith: ystyried y canlyniadau a gyflawnwyd gan CDC a'r gwahaniaeth a wnaed i'r sefydliadau a gefnogwyd
- pennod wyth: ein casgliadau a'n hargymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried yn y dyfodol.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad interim o'r broses a'r canlyniadau. Mae hefyd yn darparu proffil o'r sefydliadau a gafodd eu cyfweld a'r buddiolwyr a gyfrannodd at y gwaith maes ac yn cyflwyno ystyriaethau methodolegol allweddol ar gyfer y cam hwn o'r astudiaeth.

### Dull

2.2 Cynhaliwyd y gweithgareddau gwerthuso rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2021 ac roeddent yn cynnwys:

- mynychu cyfarfod cychwynnol cam dau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a mireinio rhaglen waith cam dau
- cynnal adolygiad pen desg o ddogfennau polisi a dogfennau strategol diweddar, dogfennau rhaglen CDC a data monitro
- drafftio canllawiau trafod ar gyfer cyfweld â chyfranwyr (a nodir yn Atodiad A) a chyfweld â:
  - thri o swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â dylunio a chyflawni'r rhaglen
  - chwe aelod o dîm cyflawni CDC: pedwar o Ganolfan Cydweithredol Cymru ac un o'r ddau ddarparwr sy'n cael eu his-gontractio, sef Prifysgol Abertawe a'r Good Things Foundation
  - cyfanswm o 38 o unigolion sy'n ymwneud â 10 sefydliad yn yr astudiaethau achos sydd wedi cydweithio â CDC. Roedd y rhain yn cynnwys:
    - naw cynghorydd CDC
    - 23 o gynrychiolwyr o 10 sefydliad
    - chwe buddiolwr gan gynnwys staff sy'n cymryd rhan, aelodau, gwirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaethau
  - un cynrychiolydd o gartref gofal

- datblygu arolwg dwyieithog ar-lein (a nodir yn Atodiad A) a threfnu bod y rhaglen yn dosbarthu dolen yr arolwg i aelodau DIAW. Dosbarthwyd yr arolwg i bob aelod (77 o unigolion). Daeth ymatebion i law gan 27 o ymatebwyr, sef cyfradd ymateb o 35 y cant
- cyfuno canfyddiadau'r gwaith maes a'r adolygiad desg a pharatoi'r adroddiad cam dau hwn.

**Proffil o'r sefydliadau a gyfrannodd at y gwerthusiad**

2.3 Dewiswyd y 10 sefydliad ar gyfer yr astudiaethau achos[2] er mwyn cynnig trawstoriad o sefydliadau sydd wedi ymgysylltu â’r rhaglen:

- roedd pedwar o’r sefydliadau wedi cyfrannu at waith maes gwerthusiad cam un ac roedd eu cynnwys fel astudiaethau achos yn gyfle i archwilio sut yr oedd eu cysylltiad â’r rhaglen wedi esblygu dros amser
- roeddent wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws Cymru: roedd pedwar yn sefydliadau Cymru gyfan, roedd un yn y gogledd, dau yn ne-orllewin Cymru a thri yn ne-ddwyrain Cymru
- cyfwelwyd ag ystod eang o sefydliadau gan gynnwys pedwar sefydliad iechyd (tri bwrdd iechyd ac un hosbis), dau awdurdod lleol, tri sefydliad o'r trydydd sector ac un sefydliad o'r sector preifat.

2.4 Cafodd un cartref gofal ei gynnwys yn y gwaith maes ac roedd wedi'i leoli yn ne-orllewin Cymru.

**Ystyriaethau methodolegol**

2.5 Mae angen ystyried y materion a ganlyn mewn perthynas â'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer y cam hwn o'r rhaglen waith:

- ar gyfer y cam hwn o’r gwerthusiad, cytunwyd y byddai nifer llai o sefydliadau na’r disgwyl yn cael eu cynnwys fel astudiaethau achos ond y byddai cyfweliadau’n cael eu cynnal ym mhob achos gydag ystod ehangach o gyfranwyr er mwyn caniatáu trafodaethau ar lefel strategol yn ogystal â lefel weithredol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i

[2] Dewiswyd yr astudiaethau achos hyn o gronfa ddata o 1,455 o gofnodion a ddarparwyd gan CDC i'r tîm ymchwil ym mis Gorffennaf 2021. Mewn llawer o achosion roedd cofnodion lluosog ar gyfer yr un sefydliad wedi'u cynnwys yn y gronfa ddata.

sefydliadau iechyd o ystyried y mater a godwyd yn yr adroddiad gwerthusiad proses a damcaniaeth newid ynghylch yr heriau a wynebir gan y rhaglen o ran gweithio gyda'r sefydliadau hyn mewn modd strategol

- mabwysiadwyd dull samplu ar hap i ddewis pob un ond un o'r sefydliadau newydd ar gyfer astudiaethau achos ar gyfer y cam hwn o'r gwaith maes. Dewiswyd un sefydliad ar gyfer astudiaeth achos yn bwrpasol i adlewyrchu ffocws cynyddol CDC ar ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg. Mewn tri achos, awgrymwyd sefydliadau amgen gan CDC ar y sail nad oedd y sampl a ddewiswyd wedi ymwneud yn weithredol â'r rhaglen yn ystod y flwyddyn flaenorol
- cytunwyd na fyddai'r sampl o sefydliadau a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth achos yn cynnwys unrhyw ysgolion ar y sail na fyddent wedi bod mewn cysylltiad â CDC yn ystod y flwyddyn flaenorol
- er y cytunwyd hefyd y byddai'r sampl ar gyfer yr astudiaethau achos yn caniatáu ar gyfer cynnwys cyfranogwyr yr ystyrir eu bod 'newydd eu hallgáu'n ddigidol' oherwydd COVID-19, bu'n anodd canfod unigolion o'r fath yn ystod y broses recriwtio. Serch hynny, cofnodwyd nifer bach o brofiadau cyfranogwyr yn ystod y gwaith maes ac adroddwyd arnynt
- cytunwyd y byddai ein bwriad gwreiddiol i ddosbarthu arolwg ar-lein i gyfranogwyr CDC yn dyblygu ymdrechion diweddar y rhaglen i gasglu adborth uniongyrchol drwy holiaduron cyn ac ar ôl i gyfranogwyr fynychu digwyddiadau hyfforddi. O'r herwydd, ail-ddyrannwyd adnoddau ymchwil i ddefnyddio arolwg ar-lein ar gyfer aelodau DIAW
- bu canfod a recriwtio buddiolwyr y rhaglen i gymryd rhan yn y gwerthusiad yn heriol iawn, yn bennaf oherwydd bod y rhaglen wedi'i darparu'n rhithwir (ac felly nid oedd unrhyw gyfleoedd i arsylwi'r ddarpariaeth hyfforddi a chwrdd â buddiolwyr wyneb yn wyneb ar gael i'r tîm ymchwil) ond hefyd oherwydd bod y tîm ymchwil yn dibynnu ar sefydliadau i nodi buddiolwyr, cael eu caniatâd i rannu eu manylion â ni a/neu drefnu cyfweliadau rhithwir/grwpiau ffocws neu gyfweliadau dros y ffôn ar ein rhan. O ganlyniad, roedd y sampl o fuddiolwyr a

gyfrannodd at yr astudiaeth yn fach iawn (chwech) a rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau. Yn hynny o beth, caiff adborth gan fuddiolwyr ei ystyried fel tystiolaeth o fewn astudiaethau achos ehangach yn hytrach nag fel tystiolaeth annibynnol.

# 3. Datblygiadau strategol a datblygiadau polisi diweddar

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi diweddariad ar y cyd-destun strategol a'r cyd-destun polisi ar gyfer y rhaglen CDC ers paratoi adroddiad gwerthuso'r cam cyntaf yn 2020. Mae’n ystyried polisïau cenedlaethol diweddar perthnasol yn ogystal â chynlluniau a strategaethau byrddau iechyd unigol sy’n ymwneud â chynhwysiant digidol.

**Tueddiadau o ran cynhwysiant digidol**

3.2 Dengys y data diweddaraf o **Arolwg Cenedlaethol Cymru**[3] (sy’n cwmpasu’r tri mis rhwng Ebrill a Mehefin 2021) fod gan 92 y cant o aelwydydd yng Nghymru fynediad i'r rhyngrwyd sy’n gynnydd bach o gymharu â’r 91 y cant o aelwydydd a nododd fod ganddynt fynediad i’r rhyngrwyd yn 2020/21. Canfu’r arolwg hefyd fod 93 y cant o unigolion wedi defnyddio’r rhyngrwyd yn bersonol gartref, yn y gwaith neu yn rhywle arall yn ystod y tri mis rhwng Ebrill a Mehefin 2021. Yr un oedd y gyfran hon yn ystod 2020/21 ond roedd yn gynnydd o gymharu â 90 y cant yn ystod 2019/20.

3.3 Mae **Mynegai Digidol Defnyddwyr Lloyds Bank y DU ar gyfer 2021** hefyd yn darparu data diweddar ar y defnydd o dechnoleg ddigidol ledled Cymru ond mae maint bach y sampl yn cyfyngu ar gadernid y data. Dengys canfyddiadau’r arolwg y bu cynnydd sylweddol yn y gyfran sy’n defnyddio’r rhyngrwyd ledled y DU, o 92 y cant yn 2020 i 95 y cant erbyn 2021 a bod cyfran yr aelwydydd sydd heb fynediad i’r rhyngrwyd wedi gostwng o saith i bedwar y cant yn ystod yr amser hwnnw[4]. Ledled Cymru, roedd y gyfran sy’n defnyddio’r rhyngrwyd hefyd wedi cynyddu dros yr un cyfnod o 85 i 88 y cant ond adroddwyd ei bod yn is na'r hyn a nodwyd yn nata Arolwg Cenedlaethol Cymru, ac roedd y gyfran sy’n defnyddio’r rhyngrwyd ledled Cymru yn parhau i fod yn is nag unrhyw ranbarth arall yn y DU.

3.4 O ran y rhai a oedd all-lein ledled y DU, roedd cyfran y bobl nad oeddent wedi defnyddio’r rhyngrwyd dros y cyfnod blaenorol o dri mis wedi gostwng

[3] Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau | LLYW.CYMRU
[4] 210513-lloyds-consumer-digital-index-2021-report.pdf (lloydsbank.com)

o 7 i 5 y cant. Ledled Cymru, er bod hyn wedi gostwng yn yr un modd o 15 i 12 y cant, roedd Cymru'n parhau i lusgo y tu ôl i’r holl ranbarthau a'r gwledydd eraill[5]. Mae dal yn wir i ddweud mai'r bobl sy'n fwy tebygol o beidio â bod ar-lein yw pobl o grwpiau hŷn ond mae un o bob deg o'r rhai nad ydynt ar-lein o dan 50 oed, sy'n awgrymu bod ffactorau ehangach nag oedran i'w priodoli i hyn. Maent hefyd yn debygol o fod yn bobl o aelwydydd incwm isel (e.e. ledled y DU mae 55 y cant o'r rhai nad ydynt ar-lein yn ennill llai nag £20,000) ac yn hawlio budd-daliadau.

3.5 Er bod yr adroddiad wedi canfod bod 20 y cant o bobl wedi gweld gwelliant yn eu sgiliau digidol yn ystod cyfnod clo y pandemig COVID-19, nododd hefyd mai pobl sy’n byw yng Nghymru (ynghyd â dynion, 60-69 oed a’r rhai sydd wedi ymddeol ac yn byw ar bensiwn y wladwriaeth) sydd fwyaf tebygol o gydnabod bod angen gwella eu sgiliau digidol.

**Datblygiadau polisi diweddar**

3.6 Roedd yr adroddiad proses a damcaniaeth newid yn ystyried y cyd-destun polisi adeg sefydlu CDC ac yn ystyried strategaethau cynhwysiant digidol allweddol Llywodraeth Cymru, megis Cyflawni Cymru Ddigidol (2010) a Sicrhau Cynhwysiant Digidol (2016), a chynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol e.e. Cymru Iachach. Roedd hefyd yn ystyried canfyddiadau gwerthusiadau tair menter cynhwysiant digidol flaenorol: Cymunedau@Ei Gilydd, Cymunedau 2.0 a Cymunedau Digidol Cymru (2015-2019). Canfu fod polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru adeg cynllunio’r rhaglen CDC bresennol yn cefnogi ymyrraeth gyhoeddus barhaus i fynd i’r afael ag allgáu digidol ymhlith grwpiau allweddol a bod angen clir i ymyrraeth ganolbwyntio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Canfu hefyd fod argymhellion blaenorol y rhaglenni a ragflaenodd CDC wedi'u defnyddio i lywio dyluniad ac amcanion y rhaglen gyfredol.

3.7 Ers cyhoeddi’r adroddiad proses a damcaniaeth newid, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhagor o bolisïau a strategaethau perthnasol fel yr amlinellir isod.

[5] Heb gynnwys Gogledd Iwerddon na chafodd ei fesur gan yr un arolwg

*Rhagolwg Cynhwysiant Digidol*

3.8 Mae **Rhagolwg Cynhwysiant Digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus**[6] (Rhagfyr 2020) Llywodraeth Cymru yn nodi cynlluniau tymor byr Llywodraeth Cymru i gefnogi mwy o bobl i ddefnyddio technoleg ddigidol dros y 12 mis nesaf ac yn adeiladu ar 'Sicrhau Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol ar gyfer Cymru' (2016). Mae'n nodi y byddai fframwaith mwy cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu yn ystod 2021 o ystyried bod y pandemig COVID-19 wedi llesteirio ei ddatblygiad yn ystod 2020 ac wedi arwain at 'anghydraddoldebau cynyddol a achosir gan allgáu digidol'.[7].

3.9 Mae'r ddogfen yn cydnabod, yn ogystal â chynyddu'r gyfran o bobl sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, bod 'angen i unigolion feddu ar y sgiliau i wneud amrywiaeth o weithgareddau, fel cyfathrebu'n effeithiol, dod o hyd i'r hyn y maent yn chwilio amdano a'i werthfawrogi, a rhannu gwybodaeth bersonol yn ddiogel mewn cyd-destun digidol,'[8]. Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â 'tlodi data', megis costau band eang neu ddata, neu gysylltedd cyfyngedig oherwydd signal gwael, sydd wedi dod yn fwy amlwg ers dechrau'r pandemig.

3.10 Mae'r cynllun yn atgyfnerthu pwysigrwydd canolbwyntio ar y pedwar grŵp blaenoriaeth a gefnogir gan CDC (pobl hŷn, pobl anabl, y rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol a phobl sy'n economaidd anweithgar a di-waith) o ystyried mai'r rhain yw'r grwpiau sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ddigidol yng Nghymru o hyd, ond mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd cefnogi'r rhai sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol yn ddiweddar[9] o ganlyniad i'r pandemig.

3.11 Mae'r cynllun yn nodi'r chwe maes gwaith canlynol sy'n flaenoriaeth:

- ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau er mwyn datblygu ymyriadau polisi ar gyfer cynhwysiant digidol a sgiliau digidol sylfaenol
- gwneud rhagor o waith ymchwil i nodi sut y gellir rhoi ymyriadau ar waith ym maes iechyd a gofal fel bod staff yn meddu ar y sgiliau a'r

[6] Rhagolwg Cynhwysiant Digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus | LLYW.CYMRU

[7] Ibid. t.4

[8] Ibid. t.2

[9] Ibid. tud.6

wybodaeth sydd eu hangen i sicrhau eu bod nhw, eu cleifion a phreswylwyr yn cael budd o dechnoleg ddigidol

- deall goblygiadau allgau digidol i gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- deall goblygiadau tlodi data o ran yr agenda allgáu digidol
- sicrhau y caiff hyder digidol ei ymgorffori a'i gysoni â Strategaeth y Gwasanaeth Arian a Phensiynau
- ystyried sut y gellir datblygu a darparu cymorth ar gyfer y sector tai cymdeithasol er mwyn sicrhau y gall preswylwyr fanteisio ar wasanaethau digidol.

3.12 Mae'r Rhagolwg yn cydnabod y rôl y mae'r rhaglen Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (CDC) yn parhau i'w chwarae, yn enwedig o ran helpu i gyflawni'r ail flaenoriaeth a nodir uchod. Mae'n nodi'r angen i gynhwysiant digidol a sgiliau gael eu 'hymgorffori yn yr hyfforddiant i staff iechyd a gofal' a 'chefnogaeth ar lefel uwch ledled Cymru' o fewn y sector[10].

*Strategaeth Ddigidol i Gymru*

3.13 Datblygwyd cynllun tymor hwy, Strategaeth Ddigidol i Gymru (Mawrth 2021)[11], gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021 ac mae Cenhadaeth 2 y strategaeth hon yn disodli'r Rhagolwg. Mae'n nodi gweledigaeth genedlaethol ar gyfer dull gweithredu ar y cyd i wella bywydau pobl yng Nghymru drwy gydweithio, arloesi, a gwasanaethau cyhoeddus gwell. Mae'r Strategaeth Ddigidol i Gymru yn nodi cyfres o feysydd blaenoriaeth o dan chwe chenhadaeth sydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn anelu at gyflymu manteision arloesi digidol i bobl, gwasanaethau cyhoeddus a'r gymuned fusnes. Mae'r meysydd hyn fel a ganlyn:

[10] tud.10

[11] Strategaeth ddigidol i Gymru [HTML] | LLYW.CYMRU

- Cenhadaeth 1: gwasanaethau digidol. Cyflenwi a moderneiddio gwasanaethau fel eu bod yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr ac yn syml, yn ddiogel ac yn gyfleus
- Cenhadaeth 2: cynhwysiant digidol. Rhoi yr ysgogiad, y mynediad y sgiliau a'r hyder i bobl ymgysylltu gyda byd sy'n fwyfwy digidol, yn seiliedig ar eu hanghenion
- Cenhadaeth 3: sgiliau digidol. Creu gweithle sydd â'r sgiliau digidol, y gallu a'r hyder i ragori yn y gweithle ac ym mywyd pob dydd
- Cenhadaeth 4: economi ddigidol. Sbarduno ffyniant economaidd a cydnerthedd drwy gynnwys a defnyddio arloesedd digidol
- Cenhadaeth 5: cysylltedd digidol. Caiff gwasanaethau eu cefnogi gan seilwaith cyflym a dibynadwy
- Cenhadaeth 6: data a chydweithredu. Caiff gwasanaethau eu gwella drwy gydweithio, a chaiff data a gwybodaeth eu defnyddio a'u rhannu.

3.14 Mae'r ail genhadaeth yn arbennig o berthnasol i CDC, a byddai disgwyl i'r rhaglen allu cyfrannu at rai o'r canlyniadau allweddol a nodir ar gyfer y genhadaeth hon, gan gynnwys:

- bydd llai wedi'u hallgáu'n ddigidol
- bydd pobl yn teimlo bod mwy o gefnogaeth iddynt ac yn fwy hyderus i ddatblygu a defnyddio sgiliau digidol sylfaenol
- bydd pobl yn gwybod ble i fynd am help i gysylltu'n ddigidol
- bydd sefydliadau'n dylunio'u gwasanaethau mewn ffordd briodol gan eu bod yn cydnabod y gall diffyg hyder digidol fod yn rhwystr i bobl rhag ymwneud yn ddigidol
- bydd pawb yn gallu cael at wasanaethau cyhoeddus a'u defnyddio, yn ddigidol a thrwy gyfryngau eraill
- bydd pobl yn teimlo bod sefydliadau ar draws sectorau yng Nghymru'n eu cefnogi

*Y Rhaglen Lywodraethu*

3.15 Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021-2026)[12] yn nodi cyfres o uchelgeisiau, gan gynnwys uchelgais i 'adeiladu economi gryfach a gwyrddach' er mwyn 'gwneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio.' Cefnogir yr uchelgeisiau hyn gan tua 100 o feysydd gweithgaredd penodol, ac mae un ohonynt yn ymrwymiad i gyflawni Strategaeth Ddigidol i Gymru ac uwchraddio'r seilwaith digidol a chyfathrebu.

*Strategaethau digidol yn gysylltiedig ag iechyd*

3.16 Roedd Adolygiad Cymru Gyfan o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar gyfer 2019-22 yn ystyried 15 Cynllun Tymor Canolig neu Gynllun Blynyddol a gynhyrchwyd gan gyrff y GIG.[13]. Er bod ffocws ar gyflawni digidol, nid oes unrhyw gyfeiriad at gynhwysiant digidol yn yr adolygiad Cymru gyfan hwn.

3.17 Mae ein hadolygiad o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig a luniwyd gan fyrddau iechyd (neu Gynlluniau Blynyddol lle nad ydynt wedi gallu cynhyrchu Cynlluniau Tymor Canolig) a luniwyd yn bennaf cyn y pandemig yn awgrymu mai ychydig iawn, os o gwbl, o sylw a roddir i faterion yn ymwneud â chynhwysiant digidol. Mae nifer o’r cynlluniau hyn yn nodi gofal iechyd digidol a thechnoleg ddigidol fel blaenoriaeth ac yn nodi cynlluniau ar gyfer gwella mynediad at dechnoleg ddigidol, hunanreolaeth â chymorth a theleiechyd, trawsnewid gwasanaethau, a datblygu gweithluoedd sy'n ddigidol symudol.

3.18 Canfu ein hymchwil dair enghraifft o strategaethau digidol byrddau iechyd diweddar a gynhyrchwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) (Ein Dyfodol Digidol).[14], Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

12 Llywodraeth Cymru - Rhaglen Lywodraethu

13 nhs-wales-national-integrated-medium-term-plan-2019-22.pdf (gov.wales)

14 Strategaeth Digidol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gig.cymru)

(BIPAB) (Digital Strategy)[15] a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Bro Morgannwg (BIP Caerdydd a'r Fro) (Delivering Digital)[16]:

- mae strategaeth 'Ein Dyfodol Digidol' BIPBC yn cynnwys y nod o drawsnewid profiad, diogelwch a deilliannau'r claf drwy ffyrdd digidol o weithio. Mae cynhwysiant digidol wedi'i nodi fel un o chwe galluogwr allweddol yn y strategaeth ac mae'n cydnabod bod allgáu digidol yn bryder cyffredin. Noda'r strategaeth y bydd y bwrdd iechyd yn gadael 'neb ar ôl' a 'chefnogi pobl i gael mynediad at ein gwasanaethau mewn ffyrdd heb fod yn ddigidol, e.e., trwy apwyntiadau wyneb-yn-wyneb'. Noda'r strategaeth fod CDC yn 'bartner allweddol' i alluogi'r sefydliad i wella cynhwysiant digidol i gleifion a staff:

  'Rydym eisiau parhau i weithio gyda nhw ac ymgysylltu â hwy yn gynnar pan fydd gennym newidiadau gwasanaeth staff neu ar gyfer gleifion. Y nhw yw'r arbenigwyr i ddatblygu gwirfoddolwyr a hyrwyddwyr digidol a gallent ein cynghori ar yr arfer gorau. Maen nhw hefyd yn bartner allweddol mewn perthynas â'n cynlluniau i gefnogi ein staff i ddatblygu eu sgiliau digidol'[17]

- Strategaeth Ddigidol ABUHB, 'Digital Strategy: Transformation through digital' yn cynnwys y nod o alluogi pobl yn ei ardal i reoli eu hanghenion iechyd a gofal yn annibynnol lle bynnag y bo modd, a'r staff i ddarparu gofal cyfannol a gwasanaethau o ansawdd uchel, drwy'r atebion digidol mwyaf arloesol sydd ar gael. Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i wella sgiliau digidol staff a chreu diwylliant digidol ar draws y bwrdd iechyd ond nid yw'n ymdrin yn benodol â chynhwysiant digidol ymhlith defnyddwyr nac yn cyfeirio at CDC yn benodol

- mae 'Delivering Digital' Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn nodi bwriad i fabwysiadu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad

[15] PowerPoint Presentation (nhs.wales)
[16] Delivering Digital Building a learning health and care system A Five Year Strategy (nhs.wales)
[17] Ibid., tud.40

'Cynhwysiant Digidol mewn Iechyd a Gofal yng Nghymru'. Mae hefyd yn nodi bwriad i fabwysiadu'r Siarter Cynhwysiant Digidol a dysgu o fentrau presennol fel Cymunedau Digidol Cymru er mwyn sicrhau nad yw pobl agored i niwed yn cael eu hallgáu o fanteision y technoleg ddigidol. Er y cyfeirir at CDC, nid yw'r strategaeth yn nodi sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r rhaglen yn y dyfodol.

**Goblygiadau i'r rhaglen Cymunedau Digidol Cymru**

3.19 Mae CDC mewn sefyllfa dda i ymateb i'r pwyslais cynyddol ar gynhwysiant digidol mewn polisïau a'r amlygrwydd cynyddol a roddir i wella gwydnwch digidol yn nogfennau polisi diweddar Llywodraeth Cymru, a helpu i gyflawni hynny.

3.20 Deallir bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei strategaeth ddigidol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, i ddisodli 'Iechyd a Gofal Gwybodus[18]', ac mae adborth a gasglwyd yn ystod y gwaith maes yn awgrymu y bydd yn bwysig i CDC ystyried sut y gall helpu i gyfrannu tuag at yr amcanion a nodir yn y strategaeth newydd hon. Rhagwelir y gallai CDC chwarae rhan allweddol o ran cefnogi byrddau iechyd i roi polisïau cynhwysiant digidol ar waith y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i fyrddau iechyd eu hamlinellu yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol.

3.21 Mae adborth o’r gwaith maes hefyd yn awgrymu y gallai CDC chwarae rhan bwysig o ran cefnogi’r datblygiadau iechyd a gofal cymdeithasol a ganlyn:

- sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)[19] ym mis Ebrill 2021 fel awdurdod iechyd arbennig newydd i ddisodli Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), gyda’r nod o ddatblygu’r genhedlaeth nesaf o wasanaethau digidol a data sydd eu hangen i drawsnewid iechyd a gofal ledled Cymru. Mae'n amlinellu nifer o flaenoriaethau gan gynnwys galluogi staff rheng flaen i gael mynediad at wybodaeth am eu cleifion lle bynnag y dymunant

[18] A Digital Health and Social Care Informed Heath and Care; A Digital Health and Social Care Strategy for Wales (llyw.cymru)
[19] Hafan - Iechyd a Gofal Digidol Cymru (gig.cymru)

weithio drwy ddatblygu porth clinigol i Gymru a helpu pobl i reoli eu hiechyd eu hunain drwy roi mynediad i bobl at eu cofnodion iechyd digidol eu hunain drwy wasanaethau digidol i gleifion a rhaglen i'r cyhoedd. Mae adolygiad o'i wefan yn awgrymu mai ychydig iawn o sylw y mae'r sefydliad wedi'i roi i gynhwysiant digidol er gwaethaf ei gynlluniau gweithredol i drawsnewid y ffordd y gall pobl gael mynediad at eu gwybodaeth iechyd

- crëwyd swydd a swyddfa Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal sy'n cael eu lletya gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar ran Llywodraeth Cymru. Disgwylir i hyn fod yn gwbl weithredol o fis Ebrill 2022 ymlaen a'r bwriad yw cefnogi trawsnewidiad digidol ar draws y maes iechyd a gofal yng Nghymru
- mae Gwasanaethau Digidol i'r Cyhoedd a Chleifion, a fydd yn disodli MyHealthOnline, yn ap un-stop i alluogi pobl Cymru i gael gwell gofal iechyd, monitro eu cyflyrau iechyd yn haws a chymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r opsiwn o ddefnyddio'r ap ar gyfer e-bresgripsiynu hefyd yn cael ei archwilio ar hyn o bryd. Awgrymwyd y gallai CDC gyfrannu at sicrhau bod unrhyw wasanaethau newydd yn cael eu dylunio mewn modd cynhwysol a'u gwneud yn hygyrch i ddefnyddwyr, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt fawr o sgiliau digidol neu ddim sgiliau digidol o gwbl.

# 4. Cynnydd yn erbyn argymhellion y gwerthusiad

4.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu sut y mae CDC wedi gweithredu ar yr argymhellion yn yr adroddiad gwerthusiad proses a damcaniaeth newid.

**Crynodeb o'r argymhellion**

4.2 Roedd yr adroddiad gwerthusiad proses a damcaniaeth newid yn cynnig saith argymhelliad i Lywodraeth Cymru a rhaglen CDC eu hystyried. Mae Tabl 4.1 yn crynhoi'r argymhellion hyn a'r cynnydd a wnaed ym mhob achos, sydd wedyn yn cael eu hystyried yn fanylach.

**Tabl 4.1: Argymhellion y gwerthusiad proses a'r ddamcaniaeth newid**

| | **Argymhellion** | **Y cynnydd a wnaed** |
|---|---|---|
| 1 | Ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad hwn i lywio blaenoriaethau'r rhaglen dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill | Wedi'i gyflawni |
| 2 | Archwilio i ba raddau y bu newid sylweddol yn y diffiniad o allgáu digidol o ganlyniad i COVID-19, ac ystyried y dylanwad y gallai hyn ei gael ar weithredu'r rhaglen | Ar y gweill |
| 3 | Ymchwilio i sut y gellir sicrhau ymgysylltiad strategol a lefel uchel â sefydliadau iechyd, ac ymrwymiad ganddynt | Ar y gweill |
| 4 | Adolygu a fyddai budd i'r rhaglen o wneud newidiadau i'w strwythur staffio yng ngoleuni'r awgrymiadau a gofnodir yn y gwerthusiad hwn a darparu ar gyfer unrhyw effaith barhaus y mae COVID-19 yn ei chael ar gyflawni'r rhaglen | Wedi'i gyflawni |
| 5 | Adolygu'r DPA a ariennir gyda'r nod o bennu allbynnau mwy realistig a chyraeddadwy a mabwysiadu nifer fach o DPA yn ymwneud â chanlyniadau ansoddol | Wedi'i gyflawni |
| 6 | Cyflymu'r gwaith o weithredu'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol, a sicrhau mwy o eglurder ynghylch ei phwrpas a'i chylch gwaith | Wedi'i gyflawni |
| 7 | Ystyried pa dystiolaeth y gall CDC ei chasglu i ddangos bod cynllun rheoli asedau'r rhaglen ar gyfer benthyca dyfeisiau yn arwain at well cysylltedd digidol mewn cartrefi gofal. | Wedi'i gyflawni |

**Argymhelliad 1: ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad hwn i lywio blaenoriaethau'r rhaglen dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill**


***Mae'r rhaglen CDC wedi adolygu ei model rhesymeg Damcaniaeth Newid yn effeithiol, gan adeiladu ar y model a gyflwynwyd yn yr adroddiad gwerthusiad proses a Damcaniaeth Newid i sicrhau ei fod yn adlewyrchu ei ddarpariaeth yn gywir dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill.***

4.3 Mae'n galonogol gweld bod CDC wedi adolygu'r model Damcaniaeth newid a nodwyd yn yr adroddiad gwerthuso cychwynnol a'i fireinio er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau a darpariaethau'r rhaglen yn fwy cywir.[20]. Mae'r model rhesymeg diwygiedig yn cadarnhau mai'r canlyniad hirdymor cyffredinol a fwriedir ar gyfer y rhaglen yw 'mae gan bob dinesydd yng Nghymru sgiliau digidol sylfaenol, cymhelliant, hyder a mynediad er mwyn ymgysylltu'n ddigidol (os dymunant)'. Mae'n nodi tair effaith arfaethedig ar gyfer y rhaglen sy'n adlewyrchu canlyniadau newydd a ariennir (a nodir yn Nhabl 4.1) y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

4.4 Un newid allweddol yn y Ddamcaniaeth Newid yw bod rhaglen waith CDC wedi'i grwpio'n chwe maes gwaith allweddol. Mae 'hyfforddiant' a 'rheoli dyfeisiau a chysylltedd' yn ddau faes gwaith sydd wedi dod yn fwyfwy amlwg. Mae'r Ddamcaniaeth Newid hefyd yn cyfeirio'n benodol at weithgareddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a lleiafrifoedd ethnig, gyda'r bwriad o wella'r broses o gynllunio gwasanaethau ac ymgysylltu â'r carfannau penodol hyn.

[20] Gan dynnu ar brofiad blaenorol o ddatblygu modelau Damcaniaeth Newid ar gyfer darpariaethau eraill Canolfan Cydweithredol Cymru, adolygodd Cyfarwyddwr y Rhaglen, Rheolwyr y Rhaglen a Swyddog Monitro'r Rhaglen y Ddamcaniaeth Newid a pharatoi fersiwn ddiwygiedig ar y cyd. Sicrhawyd cefnogaeth hefyd gan Swyddog Monitro profiadol arall o Ganolfan Cydweithredol Cymru. Cyflwynwyd y Ddamcaniaeth Newid ddiwygiedig i Lywodraeth Cymru i'w chymeradwyo. Yna cafodd holl aelodau tîm CDC eu briffio ar y Ddamcaniaeth Newid diwygiedig a rhoddwyd cyfle iddynt drafod y fframwaith a chodi unrhyw bryderon cyn ei gymeradwyo'n derfynol. Ers hynny mae'r Ddamcaniaeth Newid wedi'i ymgorffori yn fframwaith y rhaglen, yn y dogfennau canllaw mewnol ac yn y broses o gyflawni'r rhaglen.

## Ffigur 4.1 Model Damcaniaeth Newid Diwygiedig CDC




Ffynhonnell: CDC

4.5 Mae adborth gan staff y rhaglen yn awgrymu bod mireinio'r model Damcaniaeth Newid ymhellach wedi helpu i egluro diben y rhaglen a'i chanlyniadau arfaethedig. Mae hefyd wedi helpu aelodau unigol o'r tîm i ddeall sut mae eu gwaith yn cyfrannu at ddeilliannau arfaethedig y rhaglen.

**Argymhelliad 2: archwilio i ba raddau y bu newid sylweddol yn y diffiniad o allgáu digidol o ganlyniad i COVID-19, ac ystyried y dylanwad y gallai hyn ei gael ar weithredu'r rhaglen**

***Mae gwaith ar y gweill. Mae DIAW wedi gosod agenda sy'n cydnabod bod y pandemig wedi amlygu a gwaethygu rhaniadau digidol ac mae CDC yn cymryd camau uniongyrchol i dargedu a chefnogi grwpiau penodol, megis siaradwyr Cymraeg a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.***

4.6 Mae’r gwaith sy’n cael ei wneud gan DIAW (ac a drafodir ymhellach ym Mhennod 5) yn helpu i archwilio i ba raddau y mae'r pandemig COVID-19 wedi datgelu rhaniadau digidol dwfn ledled Cymru ac wedi gwaethygu’r anghydraddoldebau presennol. Wrth amlinellu ei hagenda, mae DIAW yn cydnabod bod tlodi data wedi dod yn fwy amlwg yn ystod y pandemig ac yn galw am ymchwil pellach ar effaith a graddfa tlodi data ledled Cymru. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i ddeall sgiliau digidol gweithlu Cymru yn well a sicrhau bod ymyrraeth yn cyrraedd pobl ddi-waith a’r rhai mewn gwaith sydd angen uwchsgilio neu ailhyfforddi. At hynny, mae DIAW yn cydnabod bod y pandemig wedi creu rhwystrau newydd i ddisgyblion o gefndir tlawd oherwydd yr angen i ymgysylltu ag addysg yn ddigidol. Mae DIAW yn hyrwyddo pennu safon ofynnol newydd ar gyfer bywyd digidol a ddylai adlewyrchu’r dyfeisiau, y data, y sgiliau, y galluoedd, a’r cymorth sydd eu hangen ar unigolion er mwyn cael eu cynnwys yn ddigidol yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n comisiynu ymchwil i gwmpasu safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol i Gymru.

4.7 O ran cyflawni, mae'r rhaglen CDC wedi parhau i ganolbwyntio ei darpariaeth ar y pedwar grŵp blaenoriaeth y nodwyd bod angen yr ymyrraeth fwyaf arnynt gan mai'r rhain sy'n parhau i gael eu hallgáu fwyaf yn ddigidol fel y gwelwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag,

mae CDC wedi dechrau ymchwilio i anghenion penodol grwpiau eraill dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig anghenion siaradwyr Cymraeg a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

4.8 Comisiynwyd Social Change UK gan CDC i gynnal ymchwil at ddibenion mewnol ar anghenion cynhwysiant digidol cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

4.9 Argymhellodd yr adroddiad y dylai CDC recriwtio aelod i'r tîm i ganolbwyntio'n benodol ar anghenion y gynulleidfa hon ac i nodi nifer bach o sefydliadau partner a allai helpu'r rhaglen i gynyddu ei chyrhaeddiad ymysg cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae’r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac mae aelod newydd o’r tîm wedi’i benodi a disgwylir iddo ddechrau ar ei swydd yn gynnar yn 2022.

Siaradwyr Cymraeg

4.10 Sefydlodd CDC weithgor Cymraeg gyda'r nod o ddatblygu hyfforddiant Cymraeg pwrpasol. Roedd y rhaglen yn cydnabod bod angen iddi gynnig cynnwys wedi'i deilwra sy'n ddiwylliannol briodol i'r gynulleidfa hon ac felly datblygodd hyfforddiant penodol wedi'i dargedu at grwpiau cymunedol Cymraeg eu hiaith. Mae'r rhaglen hyfforddi wedi'i threialu i un grŵp aelodaeth sy'n cwmpasu Cymru gyfan ac fe wnaeth mwy o bobl ei mynychu na'r hyfforddiant blaenorol a oedd ond wedi'i gyfieithu. Mae'r cynnig bellach yn cael ei gyflwyno i grwpiau Cymraeg eraill ac mae CDC yn gweithio'n strategol gydag amrywiaeth o sefydliadau Cymraeg i nodi a darparu cynnwys sy'n fwy diwylliannol briodol yn ddiwylliannol ac sy'n fwy cyfarwydd a pherthnasol i'w haelodau/cleientiaid.

4.11 Roedd adborth gan staff y rhaglen yn awgrymu bod CDC wedi cael trafferth yn y gorffennol i recriwtio cyfranogwyr i hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a bod y pecyn hyfforddi sydd wedi’i deilwra’n ddiwylliannol (e.e. sydd â chynnwys wedi’i deilwra megis chwilio am artistiaid Cymraeg ar Spotify yn hytrach na chyfieithu sesiynau o’r Saesneg i’r Gymraeg) wedi bod yn boblogaidd, gyda rhwng 40 a 60 o fynychwyr ym mhob sesiwn hyfforddi rithwir a gynhaliwyd hyd yma.

**Argymhelliad 3: ymchwilio i sut y gellir sicrhau ymgysylltiad strategol a lefel uchel â sefydliadau iechyd, ac ymrwymiad ganddynt**

***Awgryma'r dystiolaeth o'r gwaith maes fod CDC wedi dechrau ennyn ymgysylltiad ar lefel uwch ymhlith nifer bach iawn o sefydliadau iechyd a'i fod yn canfod bod cydweithio â sefydliadau ar draws y sector a sefydliadau aelodaeth yn ffordd effeithiol o gyflawni'r ymgysylltu hwn.***

4.12 Mae Pennod 6 o'r adroddiad hwn yn edrych yn fanylach ar i ba raddau y mae CDC wedi sicrhau ymrwymiad ar lefel strategol gan fyrddau iechyd, yn ogystal ag awdurdodau lleol, a'r galluogwyr sydd eu hangen i gyflawni hyn. Mae Pennod 6 hefyd yn adrodd ar y dull a ddefnyddiwyd gan y rhaglen i weithio gyda chyrff y sector a sefydliadau ambarél i ddarparu hyfforddiant digidol i'w gweithlu.

**Argymhelliad 4: adolygu a fyddai budd i'r rhaglen o wneud newidiadau i'w strwythur staffio yng ngoleuni'r awgrymiadau a gofnodir yn y gwerthusiad hwn a darparu ar gyfer unrhyw effaith barhaus y mae COVID-19 yn ei chael ar gyflawni'r rhaglen**

***Mae'r rhaglen wedi gwneud newidiadau priodol i'w strwythurau staffio a fydd yn caniatáu iddi ymdopi'n well ag effaith barhaus y pandemig ar gyflawni'r rhaglen.***

4.13 Mae'r rhaglen wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad i adolygu ei strwythur staffio i gyd-fynd yn well â'r Ddamcaniaeth Newid newydd. Gwnaed rhai newidiadau sylfaenol ac mae adborth yn awgrymu bod y rhain wedi helpu i atgyfnerthu dull gweithredu un tîm ledled Cymru.

4.14 Un newid allweddol yw ailstrwythuro'r ffordd y rheolir y rhaglen. Yn flaenorol, roedd tri rheolwr rhaglen rhanbarthol yn adrodd i gyfarwyddwr y rhaglen. Mae'r model hwn wedi'i ddisodli gan ddau reolwr rhaglen rhanbarthol (un ar gyfer de-ddwyrain Cymru a'r llall ar gyfer gweddill Cymru) a chyflwyno rôl newydd, sef rheolwr hyfforddiant, sydd oll yn adrodd i gyfarwyddwr y rhaglen. Cefnogir y rheolwr hyfforddiant hefyd gan swydd newydd, sef swyddog hyfforddiant. Mae rôl gweinyddwr dyfeisiau symudol hefyd wedi'i chyflwyno er mwyn monitro tueddiadau o ran y

defnydd o ddyfeisiau, data a chymwysiadau ar gyfer cyfarpar a fenthycir drwy gartrefi gofal a Chymunedau am Waith a Mwy.[21]. Penderfynodd y rhaglen beidio â gweithredu ar yr awgrym yn ein hadroddiad i benodi aelod penodedig o'r tîm cyfathrebu i weithio ar CDC ar y sail y byddai hyn wedi cyfyngu'r rhaglen rhag defnyddio sgiliau eang y tîm marchnata cyfan. Yn hytrach, mae tîm CDC wedi mabwysiadu mwy o gyfrifoldeb uniongyrchol dros hyrwyddo'r rhaglen, yn enwedig drwy'r cyfryngau cymdeithasol a pharatoi astudiaethau achos, a chymerwyd camau i wella cydweithio â'r tîm cyfathrebu.

4.15 Yn ogystal, mae deiliaid swyddi newydd wedi'u penodi i rolau cyfarwyddwr rhaglen, rheolwr rhaglen de-ddwyrain Cymru a rheolwr hyfforddiant dros y flwyddyn ddiwethaf. Sefydlwyd strwythurau newydd ar gyfer cyfarfodydd staff sydd wedi helpu i gyflwyno mwy o gysondeb ar draws darpariaeth y rhaglen e.e. mae ymgynghorwyr bellach yn cyfarfod ar lefel genedlaethol i rannu arferion yn hytrach na mynychu cyfarfodydd tîm ar lefel ranbarthol fel yr oeddent yn arfer ei wneud.

4.16 Mae adborth gan Lywodraeth Cymru a staff cyflawni’r rhaglen yn awgrymu bod y newidiadau yn sgil ailstrwythuro'r staff wedi bod yn briodol ac yn gadarnhaol. Maent wedi helpu i wella cysondeb ac wedi creu ethos 'un rhaglen' ymhlith aelodau'r tîm. Mae'r rhaglen yn elwa o arweinyddiaeth gryfach ac mae ganddi fwy ffocws ac mae'n fwy cydlynol o ganlyniad.

4.17 Teimlai'r cyfranwyr fod rhesymeg glir dros greu swyddogaeth rheoli hyfforddiant bwrpasol o fewn y tîm, o ystyried y twf yn yr hyfforddiant a ddarperir ar draws y rhaglen gyfan. Mae'r newid wedi arwain at gynnig pecyn mwy cyson o hyfforddiant ar gyfer Cymru gyfan

4.18 O ystyried bod llawer o'r newidiadau hyn yn rhai cymharol ddiweddar, roedd y cyfranwyr yn ymwybodol bod angen amser ar ddeiliaid swyddi i 'gynefino' a bod angen i sianeli cyfathrebu rhwng cynghorwyr a hyfforddwyr rhanbarthol fod yn agored ac yn gydweithredol.

[21] Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth cynghori arbenigol ar gyflogaeth a mentora dwys i bobl sy'n byw mewn tlodi neu mewn perygl o dlodi ac nad ydynt yn gymwys ar gyfer rhaglenni eraill Cronfa Gymdeithasol Ewrop fel Cymunedau am Waith a PaCE, ond sy'n dal i wynebu rhwystrau cymhleth i gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.

**Argymhelliad 5: adolygu'r DPA a ariennir gyda'r nod o bennu allbynnau mwy realistig a chyraeddadwy a mabwysiadu nifer fach o DPA yn ymwneud â chanlyniadau ansoddol**

***Mae DPA wedi'u hadolygu ac mae allbynnau a chanlyniadau mwy priodol a chyraeddadwy bellach ar waith sy'n adlewyrchu amcanion y rhaglen yn well***

4.19 Adolygodd Llywodraeth Cymru a CDC y set wreiddiol o naw dangosydd a chytunwyd i fabwysiadu pedwar DPA sy'n adlewyrchu allbynnau'r rhaglen a thri chanlyniad ar lefel rhaglen. Mae'r allbynnau a'r canlyniadau newydd i'w gweld yn Nhabl 4.2

**Tabl 4.2: Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Chanlyniadau'r Rhaglen**

| Nifer | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
|---|---|
| **1** | Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a hyder) |
| **2** | Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion |
| **3** | Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod a'i ymgorffori o fewn strategaeth y sefydliad a'r broses gyflawni.<br>a.) **2** o'r Sector Preifat<br>b.) **10** Awdurdod Lleol<br>c.) **3** Bwrdd Iechyd (Cynlluniau Tymor Canolig Integredig)<br>d.) **20** o'r Trydydd Sector a'r Sector Cyhoeddus |
| **4** | Staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus |

| Nifer | Canlyniadau'r Rhaglen |
|---|---|
| **1** | Pobl yn meddu ar ddigon o sgiliau digidol sylfaenol a hyder i allu ymgysylltu'n ddigidol (a chyda gwasanaethau digidol) yn eu bywydau beunyddiol a'u bywydau gwaith |
| **2** | Mwy o bobl yn defnyddio technoleg i reoli eu hiechyd (corfforol a meddyliol) a'u llesiant yn annibynnol |
| **3** | Y cynnydd mewn cynhwysiant digidol yn cael ei ymgorffori mewn strategaeth a darpariaeth sefydliadol |

4.20 Mae’r DPA a’r canlyniadau newydd wedi cael eu mabwysiadu o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Mae adborth gan swyddogion Llywodraeth Cymru a staff cyflawni'r rhaglen yn awgrymu bod y targedau newydd yn fwy priodol i CDC. Ymddengys fod y lleihaf yn nifer y targedau wedi bod o gymorth gan fod staff y rhaglen yn gliriach ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt ac mae'n haws i reolwyr y rhaglen drafod sut y mae gwaith pob aelod yn cyfrannu at y DPA a'r canlyniadau disgwyliedig. Mae adborth hefyd yn awgrymu bod staff cyflawni yn treulio llai o amser yn casglu data sy'n arwain at ddefnydd mwy effeithlon o amser.

4.21 Mae set o offer monitro newydd wedi'u cyflwyno gan y rhaglen i ganiatáu casglu canlyniadau ac adrodd arnynt. Bwriad yr offer yw casglu adborth uniongyrchol gan gyfranogwyr a sefydliadau sy'n ymgysylltu â'r rhaglen ac maent yn cynnwys:

- archwiliad safonol o sgiliau digidol ar gyfer sefydliadau sy'n ymgysylltu â'r rhaglen. Bydd cyflwyno’r archwiliad hwn, sy’n cyd-fynd â Fframwaith Sgiliau Digidol Hanfodol Llywodraeth y DU, yn caniatáu i’r rhaglen gasglu data llinell sylfaen ar gyfer sgiliau digidol a hyder staff a gwirfoddolwyr. Adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd 10 sefydliad a llyfrgell ar draws dau awdurdod lleol yn gweinyddu’r archwiliad ymhlith staff i gasglu gwybodaeth sylfaenol am sgiliau digidol a hyder
- ffurflen gofrestru ar gyfer hyfforddiant a roddir i bawb sy'n mynychu hyfforddiant cyn neu ar ddechrau sesiwn hyfforddi
- ffurflen werthuso ar ôl hyfforddiant a roddir i bawb sy'n mynychu hyfforddiant ar ôl cwblhau sesiwn hyfforddi
- arolwg unigol a ddosberthir i'r holl fynychwyr hyfforddiant dri mis ar ôl iddynt fynychu sesiwn hyfforddi. Anfonir y rhain mewn sypiau bob mis a'u bwriad yw cofnodi newidiadau tymor hwy
- arolwg sefydliadol a ddosberthir i berson arweiniol yn y sefydliad i ganfod effaith ymyrraeth ar y sefydliad.

4.22 Roedd data a gasglwyd gan ddefnyddio'r Archwiliad Sgiliau Sylfaenol gan un sefydliad, Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf (FCHA), ar gael gan CDC i'r tîm

gwerthuso. Mae’r data’n darparu sefyllfa llinell sylfaen gadarn ar gyfer sgiliau digidol tenantiaid ag anawsterau dysgu, o ystyried bod 57 y cant o denantiaid y gymdeithas dai a dderbyniodd yr arolwg (112 o 197) wedi’i gwblhau. Awgryma'r data fod ychydig yn llai na dwy ran o dair o’r rhai a holwyd (71 o ymatebwyr neu 63 y cant) wedi defnyddio dyfais ddigidol yn y 12 mis cyn cwblhau’r arolwg ond bod llawer yn dibynnu ar eraill am gymorth i wneud hynny (e.e. er y gallai 30 o bobl droi dyfais ymlaen eu hunain, dywedodd 41 arall mai dim ond gyda chymorth y gallent wneud hynny).

**Argymhelliad 6: cyflymu'r gwaith o weithredu Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, a sicrhau mwy o eglurder ynghylch ei phwrpas a'i chylch gwaith**

***Mae CDC wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru ar waith ac mae mwy o eglurder ynghylch ei diben a'i chylch gwaith***

4.23 Grŵp amlsector o sefydliadau o bob rhan o’r sector cyhoeddus, y sector preifat, y trydydd sector, a'r sector academaidd a pholisi yng Nghymru yw Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (DIAW) sydd â’r nod o gydlynu a hyrwyddo gweithgarwch cynhwysiant digidol ledled Cymru o dan un faner. Mae’r grŵp wedi ymrwymo i gymryd camau ar y cyd i symud yr agenda cynhwysiant digidol yn ei blaen yn sylweddol yng Nghymru.

4.24 Fe'i lansiwyd yn swyddogol ym mis Hydref 2020 ac ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd **O Gynhwysiant i Wydnwch**[22], a oedd yn nodi ei bum maes blaenoriaeth:

- Blaenoriaeth 1 Ymgorffori cynhwysiant digidol ar draws pob sector
- Blaenoriaeth 2 Prif ffrydio cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- Blaenoriaeth 3 Mynd i'r afael â thlodi data fel mater allweddol
- Blaenoriaeth 4 Blaenoriaethu sgiliau digidol yn yr economi ar ôl Covid

[22] DIAW-Inclusion-to-Resilience-Welsh-0221.pdf (gov.wales)

- Blaenoriaeth 5 Gosod safon byw digidol gofynnol newydd a mabwysiadu dulliau cyd-gynhyrchu.

4.25 Ailstrwythurwyd DIAW yn ystod haf 2021, yn rhannol er mwyn darparu ar gyfer y niferoedd mawr o aelodau a oedd yn mynychu. Mae bellach yn cynnwys rhwydwaith mawr sy'n agored i bob sefydliad sy'n gweithio ar gynhwysiant digidol yng Nghymru a grŵp llywio llai. Gall sefydliadau ymuno â'r rhwydwaith ar yr amod eu bod yn mabwysiadu ei gylch gorchwyl yn ogystal â Siarter Cynhwysiant CDC. Penderfynwyd ar aelodaeth y grŵp llywio drwy broses ymgeisio a phenodwyd wyth cynrychiolydd i'r grŵp.

4.26 Adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd un cyfarfod o'r rhwydwaith 'newydd' llawn wedi'i gynnal ym mis Medi 2021 ac roedd nifer dda yn bresennol. Disgwylir i gyfarfodydd y rhwydwaith a'r grŵp llywio gael eu cynnal bob chwarter.

4.27 Rhoddir ystyriaeth bellach i'r adborth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad am y cynnydd a wnaed gan DIAW a'r hyn a gyflawnwyd gan y gynghrair ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 7: ystyried pa dystiolaeth y gall CDC ei chasglu i ddangos bod cynllun rheoli asedau'r rhaglen ar gyfer benthyca dyfeisiau yn arwain at well cysylltedd digidol mewn cartrefi gofal.**

***Mae CDC yn casglu tystiolaeth ar y defnydd a wneir o ddyfeisiadau a fenthycir, o ran cartrefi gofal a Chymunedau am Waith a Mwy, a chaiff hyn ei ddefnyddio i lywio blaenoriaethau a darpariaeth y rhaglen***

<u>Cartrefi gofal</u>

4.28 Prynodd CDC gyfanswm o 1,066 o ddyfeisiau llechen a'u dosbarthu i 583 o gartrefi gofal ledled Cymru. Mae'r adroddiad chwarterol diweddaraf (mis Gorffennaf i fis Medi 2021) yn dangos bod 623 o'r dyfeisiau hyn wedi cael eu defnyddio a 443 heb eu defnyddio yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae cyfanswm o 200 o ddyfeisiau nad ydynt wedi cael eu defnyddio ac mae'r rhaglen wedi bod yn trefnu i'r dyfeisiau hyn gael eu dychwelyd a'u hailddosbarthu, neu i gartrefi gofal gael cymorth i'w defnyddio. O ran y defnydd adeg drafftio'r adroddiad hwn, adroddodd CDC mai 354 o

ddyfeisiau oedd yn cael eu defnyddio'n ddyddiol ar gyfartaledd, sy'n awgrymu bod traean o'r holl ddyfeisiau a ddosbarthwyd bellach yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.

4.29 Mae'r ffaith nad yw bron i un rhan o bump o'r dyfeisiau a ddosbarthwyd i gartrefi gofal erioed wedi cael eu defnyddio yn codi cwestiwn ynghylch gwerth darparu cyfarpar heb gymorth ychwanegol. Awgryma'r data fod rhwystrau sylfaenol mewn rhai cartrefi gofal sydd wedi llesteirio defnyddio'r dyfeisiau. Awgrymodd cyfranwyr at y gwerthusiad hwn fod cymysgedd o rwystrau gan gynnwys y rhai'n ymwneud â sgiliau, cysylltedd, cyfyngiadau amser a diffyg angen.

4.30 Mae CDC yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r mater ac ymchwilio i ffyrdd o gefnogi mwy o ddefnydd o'r dyfeisiau sydd ar gael i gartrefi gofal o fewn cyfyngiadau'r pandemig y mae'r rhaglen yn gweithredu o'u mewn. Mae'r ddarpariaeth hyd yma wedi cynnwys mynediad at adnoddau fel y Canllaw Arfer Da i Ddigidol ar gyfer Cartrefi Gofal a chymorth drwy weminarau byw. Mae angen i'r rhaglen flaenoriaethu'r gweithgareddau hyn i sicrhau bod dyfeisiau'n cael eu defnyddio'n well dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill.

<u>Cymunedau am Waith a Mwy</u>

4.31 Sicrhaodd CDC fod cyfanswm o 550 o ddyfeisiau Chromebook ar gael i awdurdodau lleol sy'n darparu'r rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy i'w benthyca i gyfranogwyr. Erbyn mis Medi 2021, roedd 313 o'r 550 o ddyfeisiau wedi'u dosbarthu gan awdurdodau lleol i gyfranogwyr: roedd 56 o ddyfeisiau wedi'u dosbarthu unwaith a 257 o ddyfeisiau wedi'u dosbarthu i fwy nag un cyfranogwr. Awgryma'r adroddiad chwarterol a baratowyd ym mis Mehefin 2021 na wnaed defnydd mawr o'r dyfeisiau a fenthycwyd yn ystod y chwarter o fis Ebrill i fis Mehefin gyda dim ond traean wedi'u defnyddio bryd hynny (h.y. yn cael eu defnyddio yn ystod y chwarter Ebrill-Mehefin 2021 yn seiliedig ar ddata a gymerwyd gan Google administrator). Y defnydd dyddiol cyfartalog ar gyfer y cyfnod hwn oedd 90 o ddyfeisiau a'r defnydd undydd uchaf oedd 129. Erbyn mis Medi 2021, roedd pob un o'r 313 o ddyfeisiau a ddosbarthwyd wedi cael eu defnyddio yn ystod y tri mis

ond dim ond rhyw fymryn o gynnydd a welwyd yn y defnydd dyddiol: roedd 109 o ddyfeisiau'n cael eu defnyddio bob dydd ar gyfartaledd a'r defnydd uchaf ar gyfer un diwrnod oedd 154.

## 5. Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru

5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y cynnydd a wnaed a chyflawniadau DIAW, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg ar-lein gydag aelodau a barn Llywodraeth Cymru a staff cyflawni'r rhaglen. Yn gyntaf mae'n nodi proffil y 27 o ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg ar-lein.

**Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg**

5.2 Roedd proffil y 27 o ymatebwyr i arolwg DIAW fel a ganlyn:

- roedd hanner (14) y rhai a gwblhaodd yr arolwg yn sefydliadau'r trydydd sector, chwarter (7) o sefydliadau'r sector cyhoeddus, pedwar o'r sector preifat a'r pedwar arall o sectorau eraill gan gynnwys y byd academaidd, cymdeithasau tai ac undebau llafur
- roedd y mwyafrif (22) yn aelodau o rwydwaith DIAW, a nifer bach (3) yn aelod o'r grŵp llywio. Nid oedd dau ymatebydd yn gwybod a oeddent yn aelodau o'r rhwydwaith neu'r grŵp llywio
- roedd tua thri chwarter y rhai a ymatebodd yn mynychu cyfarfodydd o'r rhwydwaith yn gyson. Roedd chwarter ond wedi mynychu rhai o gyfarfodydd y rhwydwaith neu ddim o gwbl a dyma'r rhai a oedd yn gwybod leiaf am waith DIAW.

5.3 Roedd yr arolwg ar gael yn ddwyieithog ond cwblhaodd pob ymatebydd yr arolwg yn Saesneg.

**Y cymhelliant i ymuno â DIAW**

5.4 Crybwyllwyd cymhellion cyffredin dros ymuno â DIAW gan yr aelodau yn yr arolwg ac roeddent yn cynnwys:

- er mwyn bod yn ymwybodol o bolisi a datblygiadau yn ymwneud â chynhwysiant digidol
- i rannu gwybodaeth, syniadau ac arferion da a dysgu oddi wrth eraill
- i ddatblygu gwell dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â chynhwysiant digidol ac atebion ar gyfer cleientiaid neu aelodau sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol

- cyfle i gymryd rhan mewn rhwydwaith a oedd yn hyrwyddo datblygiad cynhwysiant digidol ledled Cymru.

5.5 Yr elfennau allweddol a oedd yn ddefnyddiol i'r ymatebwyr yn sgil bod yn aelod o DIAW oedd:


- cael mynediad at enghreifftiau o arfer gorau mewn perthynas â chynhwysiant digidol (23)
- datblygu neu gynnal cysylltiadau ledled Cymru (22)
- cymryd rhan mewn trafodaethau am faterion yn ymwneud â chynhwysiant digidol (20).

**Siarter Cynhwysiant Digidol**

5.6 Mae'n ofynnol i sefydliadau fabwysiadu Siarter Cynhwysiant Digidol CDC er mwyn ymuno â DIAW. Mae mabwysiadu'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ymrwymo'n ffurfiol i chwe addewid allweddol i ddangos eu hymrwymiad i helpu pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Er nad yw'r addewidion yn arbennig o feichus, fel arfer mae angen cymeradwyaeth ffurfiol ar sefydliadau gan eu Bwrdd neu uwch reolwyr cyn y gallant ymuno â'r rhwydwaith.

5.7 Dengys Ffigur 5.1 fod tair rhan o bump o aelodau DIAW a gymerodd ran yn yr arolwg eisoes wedi mabwysiadu Siarter Cynhwysiant Digidol CDC. Roedd mwyafrif yr aelodau eraill a gymerodd ran yn yr arolwg yn gweithio tuag at hynny (8 ymatebydd) ac roedd dau nad oeddent wedi dechrau gweithio ar hynny eto.

**Ffigur 5.1: Aelodau DIAW a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd wedi mabwysiadu Siarter CDC**





Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (27 o ymatebwyr)

5.8 Roedd chwech o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd eisoes wedi mabwysiadu'r Siarter o'r farn nad oedd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth neu fawr ddim gwahaniaeth i'w sefydliad hyd yma, yn bennaf oherwydd eu bod yn ystyried ei bod yn 'ddyddiau cynnar' o ran ei mabwysiadu ar draws eu sefydliad. Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn rhoi mwy o werth ar y Siarter yn cydnabod ei gwerth fel fframwaith da i'w sefydliad, fel arf i lywio eu strategaethau ac fel dull o sicrhau bod eu sefydliad yn atebol.

**Meysydd blaenoriaeth DIAW**

5.9 Holwyd yr ymatebwyr i'r arolwg am y pum maes blaenoriaeth a nodwyd gan DIAW i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu cael mynediad at dechnoleg ddigidol ac elwa arni. Mae Ffigur 5.2 yn dangos bod y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg o'r farn y byddai'r blaenoriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allgáu digidol yng Nghymru, yn enwedig o ran ymgorffori a phrif ffrydio cynhwysiant digidol ar draws sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a sectorau eraill.

**Ffigur 5.2: Y gwahaniaeth y mae'r ymatebwyr i'r arolwg yn disgwyl i flaenoriaethau DIAW ei wneud i allgáu digidol yng Nghymru**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (27 o ymatebwyr)

5.10 Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn disgwyl i'w sefydliad eu hunain gyfrannu at y meysydd blaenoriaeth hyn mewn sawl ffordd gan gynnwys:

- cefnogi datblygu sgiliau a hyder y staff
- darparu mentrau cynhwysiant digidol gyda'r nod o gefnogi cwsmeriaid, aelodau, a chleientiaid i ddatblygu eu sgiliau digidol a'u hyder
- darparu mynediad i gyfleusterau digidol, dyfeisiau a data i gwsmeriaid, aelodau, a chleientiaid mewn ymgais i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thlodi data
- sicrhau y gall cwsmeriaid a chleientiaid ymgysylltu â gwasanaethau a ddarperir yn ddigidol sydd ar gael gan sefydliadau.

### Cynnydd a chyflawniadau

5.11 O gymharu â'r sefyllfa yn 2020 pan gynhaliwyd y gwerthusiad proses a damcaniaeth newid, roedd y cyfranwyr yn gliriach ynghylch diben a chylch gwaith DIAW. Ystyriwyd bod cyhoeddi agenda DIAW wedi helpu yn hyn o beth, er enghraifft, dywedodd un cyfrannwr: 'mae lansio'r agenda a phennu blaenoriaethau clir wedi bod yn hollbwysig'.

5.12 Roedd Llywodraeth Cymru a staff cyflawni'r rhaglen o'r farn bod DIAW wedi gwneud cynnydd da dros y flwyddyn ddiwethaf. Nododd yr ymatebwyr i'r arolwg a chyfranwyr a gyfwelwyd mai prif gyflawniadau DIAW hyd yma oedd:

- sefydlu fforwm eang a oedd yn dod â phobl ynghyd o ystod eang o feysydd o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat
- sefydlu 'dull mwy unedig a chydgysylltiedig ledled Cymru' o ymdrin â'r agenda cynhwysiant digidol
- sefydlu trefniadau llywodraethu mwy effeithiol
- sicrhau ymgysylltiad effeithiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru, yr oedd rhai yn ei ystyried yn 'hanfodol' i lwyddiant gwaith y rhwydwaith
- ennyn lefel iach o ddiddordeb gan 'gynifer o bobl a sefydliadau' yn gymharol gyflym
- datblygu strategaeth o ansawdd da a sicrhau consensws ymhlith yr aelodau i'r pum blaenoriaeth allweddol.

**Y dyfodol**

5.13 Nodwyd amrywiaeth o flaenoriaethau gan yr ymatebwyr i'r arolwg ar gyfer DIAW. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn cyd-fynd â'r pum blaenoriaeth a nodir yn agenda'r gynghrair ac ni chânt eu hailadrodd yma. Fodd bynnag, roedd rhai o'r blaenoriaethau mwy cyffredin eraill a amlygwyd yn cynnwys yr angen i:

- gydnabod ac ystyried sut y gellir ariannu rhai o'r blaenoriaethau e.e. 'bydd angen ariannu llawer o'u hamcanion'
- ystyried tlodi data a materion yn ymwneud â chysylltedd o fewn cymunedau gwledig
- gweithio tuag at fynediad diderfyn am ddim i bawb ac 'ymgyrchu i sicrhau bod rhannu a chyfrannu data yn dod yn beth cyffredin'
- sicrhau bod neges DIAW yn cael ei chadw yn y parth cyhoeddus drwy strategaeth gyfathrebu effeithiol.

5.14 Cynigiodd yr ymatebwyr i’r arolwg nifer o awgrymiadau ymarferol i’r DIAW eu hystyried ar gyfer y dyfodol, yn enwedig o ran sut y mae’r gynghrair yn mynd ati i wneud ei gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys ymchwilio i:

- fforwm ar-lein i rannu gwybodaeth rhwng cyfarfodydd, o ystyried bod datblygiadau digidol yn tueddu i symud yn gyflym
- cyfarfodydd wyneb yn wyneb posibl yn y dyfodol, a thrwy hynny fabwysiadu ymagwedd gyfunol
- cynnal sesiynau sy'n canolbwyntio'n benodol ar un maes blaenoriaeth neu sectorau penodol.

5.15 Er yr ystyriwyd bod DIAW wedi denu cryn ddiddordeb ymysg ei aelodau, roedd yn bryder i Lywodraeth Cymru a staff cyflawni'r rhaglen fod diffyg amrywiaeth ymysg aelodaeth y Gynghrair, yn enwedig o blith sefydliadau sy'n cynrychioli'r y Gymraeg a Phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd awgrym cryf hefyd y gallai’r sector iechyd gael ei gynrychioli’n well ar DIAW, o ystyried nad oes yr un o’r byrddau iechyd nac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn cael eu cynrychioli yn y gynghrair ar hyn o bryd.

5.16 Roedd yn bryder i lawer mai ychydig iawn o amser a oedd yn weddill gan DIAW, yn absenoldeb estyniad o dair blynedd i’r rhaglen, i gyflawni ei hamcanion, yn enwedig gan yr ystyriwyd ei bod yn ‘ddyddiau cynnar’ i ddangos effaith gwaith y gynghrair. Roedd barn y dylai DIAW barhau p'un a oedd CDC yn weithredol ai peidio gan fod y gynghrair yn rhwydwaith strategol ag iddo rôl o ran gosod yr agenda cynhwysiant digidol yn y dyfodol ledled Cymru:

> 'rydyn ni wedi byw drwy bandemig ac rydyn ni mewn sefyllfa wahanol nawr. Bydd angen i ni sianelu mwy o'n hegni i'r DIA[W] er mwyn bwrw ymlaen â'r hyn rydym wedi'i ddysgu o'r pandemig a chydgrynhoi hynny er mwyn i gynhwysiant digidol barhau i fod yn flaenoriaeth bwysig iawn yng Nghymru ac yn y DU'.

## 6. Gweithredu'r rhaglen

6.1 Mae'r bennod hon yn nodi sut y mae CDC wedi'i roi ar waith yn ystod y flwyddyn flaenorol ac yn ystyried effaith y pandemig COVID-19 ar y rhaglen, ei gweithgarwch hyrwyddo a'i hymgysylltiad â sefydliadau yn ogystal â pherfformiad yn erbyn targedau a ariennir. Mae'n seiliedig yn bennaf ar gyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru, staff cyflawni'r rhaglenni a sefydliadau a gefnogir.

**Effaith COVID-19**

6.2 Mae'r rhaglen wedi gallu addasu'n dda i gynnig darpariaeth rithwir a bu galw mawr am hyfforddiant rhithwir, sy'n awgrymu y byddai gwerth parhau â hyn yn y dyfodol. Adeg y gwaith maes, roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant ar gael yn rhithwir ac roedd cynlluniau ar y gweill i ystyried dull cyfunol ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Mynegwyd peth pryder ynghylch argaeledd lleoliadau traddodiadol (e.e. llyfrgelloedd) i gynnal hyfforddiant personol ac a fyddai'r rhai sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ddigidol yn barod i fynychu sesiynau grŵp ar ôl COVID-19. Awgrymwyd bod angen i CDC oresgyn y rhwystrau hyn gan fod darpariaeth wyneb yn wyneb barhaus yn cael ei hystyried yn hanfodol er mwyn cyrraedd y cleientiaid sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ddigidol.

6.3 Roedd staff cyflawni'r rhaglen o'r farn bod benthyca dyfeisiau i gartrefi gofal ac i Gymunedau am Waith a Mwy, er mwyn helpu i wella cysylltedd digidol a defnydd o dechnoleg ddigidol yn ystod y pandemig, wedi bod yn dasg enfawr ac wedi rhoi straen ar y tîm cyflawni er gwaethaf y ffaith bod yr achos dros gefnogi cartrefi gofal wedi'i ysgogi gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Neilltuwyd cryn dipyn o amser y staff i'r ddwy agwedd hyn yn ystod 2020. Er eu bod yn dal i gyfrif am elfen o lwyth gwaith y rhaglen, roedd ymdeimlad bod CDC wedi gallu taro cydbwysedd gwell yn ystod 2021 rhwng y gofynion ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn a throi at ddiben gwreiddiol CDC i weithio mewn ffordd fwy rhagweithiol a strategol gyda sefydliadau allweddol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

**Hyrwyddo a marchnata**

6.4 Mae adborth gan sefydliadau a gefnogir yn awgrymu bod CDC yn frand adnabyddus y mae pobl yn ymddiried ynddo a bod y sefydlogrwydd parhaus sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, oherwydd ei bod yn cael ei darparu gan yr un darparwr, yn gryfder.

6.5 Rhoddwyd ffocws o'r newydd ar ddatblygiadau hyrwyddo a marchnata dros y deuddeg mis diwethaf. Un o'r uchafbwyntiau allweddol fu datblygu'r ymgyrch Cyfeillion Digidol, a ddarparwyd ar y cyd ag Age Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Darlledwyd yr ymgyrch hon ar y teledu yn ystod haf 2021 i annog pobl sy'n ddigidol hyddysg i gefnogi'r rhai nad ydynt ar-lein i fod ddigidol weithgar. Awgrymodd staff y rhaglen fod yr ymgyrch wedi arwain at gynnydd yn y traffig i wefan CDC ac mae data a ddarparwyd gan CDC yn dangos bod 742 o ymwelwyr unigryw wedi ymweld â thudalen we Cyfeillion Digidol yn ystod y tri mis rhwng Mehefin ac Awst 2021. Yn gyffredinol, bu cynnydd o 16 y cant yn y defnydd o wefan CDC dros y chwarter Mehefin i Awst 2021 o'i gymharu â'r un chwarter yn y flwyddyn flaenorol (o 7,288 i 8,454).

6.6 Mae gwefan CDC hefyd wedi cael ei hailwampio'n ddiweddar ac roedd staff y rhaglen yn fodlon ar y cyfan â'r strwythur a'r cynnwys newydd. Gwnaed mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol dros y 12 mis diwethaf ac er bod hynny i'w groesawu, roedd staff y rhaglen yn credu bod mwy o le o hyd i wella proffil a darpariaeth cyfryngau cymdeithasol CDC. Adeg y gwaith maes, roedd fframwaith rhyngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael ei baratoi i roi hwb i'r gwaith o hyrwyddo'r rhaglen ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Ymgysylltu â sefydliadau**

6.7 Roedd cronfa ddata o sefydliadau a gefnogir, a rannwyd gyda'r tîm gwerthuso ar ddiwedd mis Mehefin 2021, yn cynnwys 1,455 o gysylltiadau[23]. Mae hyn yn gynnydd amlwg ar y gronfa ddata o 628 o gofnodion a oedd ar gael yn ystod 2020 sy'n nodi bod CDC wedi gallu

[23] Roedd rhai o'r rhain yn gofnodion dyblyg ond yn adlewyrchu gwahanol brosiectau, adrannau, lleoliadau neu wasanaethau ar gyfer yr un sefydliad.

cynyddu ei hymgysylltiadau'n sylweddol dros y 12 mis diwethaf. Roedd adborth gan staff y rhaglen yn awgrymu bod y galw gan sefydliadau wedi dechrau cynyddu o wanwyn 2021 ymlaen.

6.8 Yn gyffredinol, mae ystod eang iawn o sefydliadau o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi ymgysylltu â CDC. Er enghraifft, roedd 217 o'r cofnodion ar gronfa ddata CDC yn sefydliadau'r trydydd sector, roedd 112 yn sefydliadau iechyd (gan gynnwys hosbisau, cartrefi gofal a nyrsio), 53 yn sefydliadau tai, 113 yn sefydliadau addysg, 151 yn awdurdodau lleol a 25 yn sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus.

6.9 Fodd bynnag, o'r sefydliadau a restrir ar gronfa ddata CDC, dim ond 24 a gofnodwyd fel busnesau'r sector preifat ac roedd 10 o'r cofnodion hyn ar gyfer gwahanol ganghennau o'r un archfarchnad. Mae'n bwysig nodi ei bod yn bosibl nad yw rhai sefydliadau yn y sector preifat (e.e. cartrefi gofal neu nyrsio) wedi'u codio fel cyrff sector preifat er eu bod yn gweithredu felly. Dim ond pump o’r cofnodion ar gyfer y sector preifat a oedd wedi’u creu yn ystod 2020 neu’n hwyrach, sy’n awgrymu bod recriwtio sefydliadau'r sector preifat wedi bod yn heriol. Awgrymwyd bod y rhaglen wedi cysylltu â rhai sefydliadau yn y sector preifat ond bod eu hamheuon ynghylch yr angen i ariannu adnoddau neu ddarpariaethau cynhwysiant digidol dwyieithog, a fyddai'n angenrheidiol er mwyn ymgysylltu â CDC, wedi eu hatal rhag ymwneud â'r rhaglen. Awgrymwyd hefyd, er mwyn targedu sefydliadau yn y sector preifat yn well, bod angen i'r rhaglen wella ei gwaith gydag undebau llafur.

**Ymgysylltu â'r sector iechyd a gofal cymdeithasol**

6.10 Bellach mae mwy o enghreifftiau ar waith o CDC yn gweithredu'n strategol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae llawer o ddatblygiadau diweddar wedi cynnwys gweithio ar lefel sector gyda chyrff ambarél a chynrychioliadol, yn hytrach na dim ond ar lefel sefydliadol unigol a oedd yn tueddu i fod yn wir yn hanesyddol. Amlygwyd gwaith ar y cyd â Gofal Cymdeithasol Cymru fel enghraifft dda.

Amlygwyd y cydweithio strategol diweddar gyda Gofal Cymdeithasol Cymru fel datblygiad effeithiol lle mae CDC yn ymgysylltu â sefydliad ambarél i gyrraedd y gweithlu gofal cymdeithasol ledled Cymru i sicrhau bod hyfforddiant digidol ar gael. Roedd hon yn un gynulleidfa nad oedd yn cael ei chydnabod yn flaenorol fel un a oedd wedi'i hallgáu'n ddigidol cyn y pandemig COVID-19:

'gwyddom fod gweithwyr gofal cymdeithasol yn wynebu rhwystr yn ymwneud â sgiliau cynhwysiant digidol: mae hynny'n golygu na allant wedyn gefnogi eraill sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae'r darn hwn o waith yn adlewyrchu'r ymwybyddiaeth gynyddol o fwlch sgiliau nad oedd wedi'i nodi cyn y pandemig'.

Mae CDC wedi sicrhau trefniant gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal modiwlau wedi'u teilwra a fabwysiadwyd o ddarpariaeth Learn My Way gan y Good Things Foundation ar gyfer staff gofal cymdeithasol. Mae'r modiwlau e-ddysgu wedi cael eu datblygu a disgwylir iddynt gael eu lansio yn gynnar yn 2022. Bydd yn bwysig monitro'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth ac effaith y trefniant hwn.

6.11 Yn ogystal â hynny, mae CDC wedi sefydlu deialog reolaidd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i rannu gwybodaeth am sut y mae'r rhaglen yn cydweithio ar lefel ehangach ag awdurdodau lleol, a chydag is-adran gofal plant a blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru i ymchwilio i ddatblygu canllawiau ar-lein wedi'u teilwra i ddarparwyr gofal eu rhoi i'w gweithlu. Yn yr un modd, mae'r rhaglen wedi dechrau ymgysylltu â chyrff eraill sy'n aelodau o'r gweithlu, fel Coleg Brenhinol y Bydwragedd, i ymchwilio i'r ffordd orau o dargedu a chefnogi'r aelodau gyda'u sgiliau digidol. Awgrymodd staff y rhaglen fod cryn gyfle i efelychu'r dull hwn mewn sectorau eraill, megis drwy weithio gyda Cartrefi Cymunedol Cymru i gefnogi'r sector tai a chydag undebau llafur i dargedu gweithwyr sy'n aelodau ohonynt.

6.12 Mae adborth gan staff y rhaglen yn awgrymu bod CDC yn magu momentwm ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol drwy weithio yn

y modd hwn er bod sefyllfa sefydliadau unigol megis byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn dal i amrywio.

6.13 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru a staff cyflawni'r rhaglen yn credu y bu newid cadarnhaol yn y ffordd y mae byrddau iechyd yn ymgysylltu â'r rhaglen erbyn hyn – a chyda chynhwysiant digidol yn fwy cyffredinol – gyda CDC bellach yn ymwneud â nifer fwy ac ehangach o wasanaethau ac adrannau unigol ar draws byrddau iechyd. Credwyd bod hyn wedi'i ysgogi i raddau helaeth gan effaith y pandemig a'r angen i'r sector iechyd gofleidio darpariaeth ddigidol yn gyflym. Sylwyd bod 'yr ewyllys yno ar draws y sector iechyd nawr' i gydweithio gyda CDC mewn modd mwy ystyrlon nag o'r blaen.

6.14 Ystyriwyd hefyd bod y cynnydd yn ymgysylltiad cyffredinol byrddau iechyd â CDC yn cael ei gefnogi gan y pwyslais cynyddol a roddir ar yr agenda hon gan is-adran iechyd Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyrff allweddol eraill fel AaGIC y credwyd eu bod yn rhoi mwy o amlygrwydd i gynhwysiant digidol yn eu trafodaethau gyda byrddau iechyd. Fel y dywedodd un: 'mae CDC yn cael ei hyrwyddo'n fwy o fewn Llywodraeth Cymru nawr o gymharu â'r llynedd'. Awgrymwyd y gellid gwella'r gofyniad hwn ymhellach yn y dyfodol, er enghraifft drwy sicrhau bod cytundebau cyllido i fyrddau iechyd yn nodi'r angen i groesawu cynhwysiant digidol ac i gynlluniau cynhwysiant digidol gael eu nodi mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.

6.15 Er gwaethaf y lefel uwch o ymgysylltu fodd bynnag, dim ond un enghraifft benodol a grybwyllwyd gan staff y rhaglen o fwrdd iechyd a oedd bellach yn ymgysylltu â CDC mewn modd strategol, lle y bu CDC yn ymwneud â datblygu ei bolisi cynhwysiant digidol. Mae'r sefydliad hwn wedi'i gynnwys fel un o astudiaethau achos yr ymchwil (gweler Pennod 7).

6.16 Roedd y cyfranwyr o'r farn bod lle o hyd i wella lefelau ymgysylltu â'r rhaglen ar draws rhai byrddau iechyd. Er enghraifft, nodwyd nad oes yr un ohonynt yn cael eu cynrychioli ar DIAW ar hyn o bryd a bod ceisio ymgysylltu â Phrif Swyddogion Gwybodaeth Glinigol drwy'r llwybr hwn yn flaenoriaeth.

6.17 Mae’r un rhwystrau i ymgysylltu â byrddau iechyd yn parhau ac yn eu plith mae diffyg amser ac adnoddau ar ran y sector oherwydd y pwysau ar sefydliadau i ymdrin â goblygiadau’r pandemig a phroblemau cyfathrebu oherwydd eu bod yn sefydliadau mawr:

'Mae'r Byrddau Iechyd mor fawr ac maent yn cael cymaint o ohebiaeth ac maen nhw dan bwysau amser. Yn fewnol mae'n cymryd amser i gyrraedd y bobl iawn – a hynny oherwydd natur y sefydliadau hyn'.

'mae gweithio gyda sefydliad mor enfawr â'r GIG yn dipyn o her – mae angen cymorth arnom i efelychu prosiectau a sicrhau eu bod yn cael eu traed danynt. Rhaid i hynny ddod gan uwch arweinwyr ac mae rôl i Lywodraeth Cymru o ran cefnogi hyn’.

**Perfformiad yn erbyn targedau**

6.18 Hyd ddiwedd mis Mawrth 2021, adroddodd y rhaglen yn erbyn ei naw dangosydd perfformiad allweddol (DPA) gwreiddiol. Mae Tabl 6.1 yn nodi cyflawniadau CDC dros yr 20 mis cyntaf o gyflawni yn erbyn ei thargedau tair blynedd. Roedd y rhaglen yn perfformio'n dda yn erbyn pedwar o'i naw DPA (DPA 1, 4, 6 a 9), ar ôl rhagori gryn dipyn eisoes ar ddau DPA er bod tuag 16 mis o'r rhaglen yn weddill. Roedd wedi cyflawni rhwng chwarter a thraean o'i thargedau ar gyfer tri DPA arall (DPA 2, 5 ac 8) ond roedd yn tanberfformio'n sylweddol yn erbyn y ddau DPA a oedd yn weddill (DPA 3 a 9). Dim ond un sefydliad mawr yn y sector preifat yr oedd wedi llwyddo i ymgysylltu ag ef erbyn diwedd mis Mawrth 2021. Er ei fod wedi gallu ymgysylltu â thros 1,000 o staff iechyd a gofal, roedd yn dal i fod yn llawer is na'r targed a osodwyd ar gyfer y rhaglen.

**Tabl 6.1: Perfformiad rhaglen dros 20 mis cychwynnol o weithgaredd**

| | DPA | Targed 3 blynedd (36 mis) | Wedi'i gyflawni (20 mis) | Wedi'i gyflawni (fel % o'r targed cyffredinol) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Pobl a gafodd gymorth uniongyrchol drwy ymyriadau dwys | 15,000 | 12,597 | 84% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Pobl a gafodd gymorth anuniongyrchol drwy ymgysylltu â sefydliadau | 120,000 | 29,109 | 24% |
| 3 | Sefydliadau mawr yn y sector preifat yr ymgysylltwyd â nhw | 30 | 1 | 3% |
| 4 | Cyrff y trydydd sector a'r sector cyhoeddus yr ymgysylltwyd â nhw | 240 | 361 | 150% |
| 5 | Sefydliadau'r sector cyhoeddus yr ymgysylltwyd â nhw (gan gynnwys pob Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol) | 105 | 31 (10) | 30% |
| 6 | Gwirfoddolwyr Cynhwysiant Digidol a gafodd eu recriwtio a'u lleoli gan sefydliadau a gefnogir gan y rhaglen | 1,500 | 1,365 | 91% |
| 7 | Staff iechyd a gofal a gafodd gymorth i ddefnyddio technoleg er mwyn gwella canlyniadau iechyd | 15,000 | 1,394 | 9% |
| 8 | Cleifion a gafodd gymorth i ddefnyddio technoleg er mwyn gwella canlyniadau iechyd | 45,000 | 14,905 | 33% |
| 9 | Staff Rheng Flaen (heblaw am iechyd a gofal) a hyfforddwyd i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio technoleg | 1,500 | 1,529 | 201% |

Ffynhonnell: Adroddiad chwarterol Rhaglen CDC

6.19 Mewn ymateb i argymhelliad a gynigiwyd gan y gwerthusiad Proses a Damcaniaeth Newid, o fis Ebrill 2021 ymlaen, adroddodd CDC yn erbyn set newydd o DPA a chanlyniadau'r rhaglen. Nodir perfformiad dros y chwe mis rhwng Ebrill a Medi 2021 yn Nhabl 6.2. Mae'n dangos bod y rhaglen yn gyffredinol ar y trywydd iawn o ran ei thargedau ar gyfer tri DPA neu wedi rhagori arnynt, ar y sail y byddai'n rhesymol disgwyl i CDC fod wedi cyflawni tua 40 y cant o'i tharged 15 mis ar ôl chwe mis o weithredu. Awgryma hyn fod y DPA diwygiedig yn briodol ac yn realistig. Mae'r rhaglen fymryn ar ei hôl hi o ran ei pherfformiad ar gyfer DPA 3 er bod CDC wedi ymgysylltu â nifer ddigonol o sefydliadau i ganiatáu i'r targed hwn gael ei gyflawni o fewn cyfnod y rhaglen, o ystyried ei bod yn ofynnol i'r rhaglen

weithio ar sail tymor hwy gyda sefydliadau cyn y gellid disgwyl i'r DPA hwn gael ei gyflawni.

**Tabl 6.2: Perfformiad y rhaglen yn erbyn y DPA diwygiedig (Ebrill 2021 – Mehefin 2022)**

| | DPA | Targed (15 mis) | Cyflawnwyd (Medi 2021, 6 mis) | Wedi'i gyflawni hyd yma (fel % o'r targed cyffredinol) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a hyder) | 32,500 | 19,847 | 62% |
| 2 | Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion | 1,250 | 621 | 50% |
| 3 | Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod a'i ymgorffori o fewn strategaeth y sefydliad a'r broses gyflawni.<br>a.) Sector Preifat<br>b.) Awdurdodau Lleol<br>c.) Byrddau Iechyd (Cynlluniau Tymor Canolig Integredig)<br>d.) Trydydd Sector a'r Sector Cyhoeddus<br>Cyfanswm | *2*<br>*10*<br>*3*<br>*20*<br>35 | *0*<br>*2*<br>*1*<br>*5*<br>8 | *0%*<br>*20%*<br>*33%*<br>*25%*<br>23% |
| 4 | Staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus | 1,750 | 667 | 38% |

6.20 Adroddir ar ganlyniadau'r rhaglenni gan ddefnyddio offer amrywiol ac adborth o arolygon cleientiaid. Ym mis Medi 2021, canfu adborth gan sefydliadau sy'n gleientiaid i'r rhaglen y wybodaeth a ganlyn:

- dywedodd 100 y cant o'r cleientiaid a gymerodd ran yn yr arolwg fod cymorth gan CDC wedi eu helpu i weithio tuag at eu nodau cynhwysiant digidol

- mae 61 y cant o gleientiaid yn ymwybodol o'r Strategaeth Ddigidol i Gymru
- cafodd 48 y cant o gleientiaid hyfforddiant i'r staff gan hyfforddwyr CDC
- datblygodd 35 y cant o gleientiaid bartneriaethau digidol gyda sefydliadau eraill o ganlyniad i CDC

6.21 Yn yr un modd, ym mis Medi 2021, ar gyfer cyfanswm o 95 o unigolion a hyfforddwyd:

- roedd 83 y cant yn fwy hyderus i rannu eu sgiliau digidol ag eraill
- roedd gan 82 y cant fwy o gymhelliant i ddefnyddio technoleg yn eu bywydau bob dydd
- dywedodd 80 y cant fod eu sgiliau digidol wedi gwella
- roedd 75 y cant yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio technoleg yn rheolaidd
- roedd gan 55 y cant ddealltwriaeth well o sut i ddefnyddio technoleg i wella a rheoli eu hiechyd

6.22 O ran perfformiad y rhaglen, adeg y gwaith maes teimlwyd ei bod yn rhy gynnar i ffurfio barn bendant ynghylch perfformiad CDC yn erbyn ei thargedau diwygiedig ond roedd Llywodraeth Cymru a staff a oedd yn cyflawni'r rhaglen yn fodlon ar y cyflawniadau hyd yma yn gyffredinol.

**Monitro ac adrodd**

6.23 Bu gwelliant ym manylion ac ansawdd yr wybodaeth a ddarperir i Lywodraeth Cymru drwy adroddiadau chwarterol y rhaglen. Mae hyn wedi arwain at lai o gwestiynau dilynol am y rhaglen, sydd wedi lleihau'r amser y mae staff bellach yn ei dreulio yn ymateb i geisiadau pellach am wybodaeth. Caiff cwestiynau dilynol, yn bennaf o ganlyniad i gwestiynau gan Weinidogion, eu cyfeirio at gyfarwyddwr y rhaglen ac mae proses well ar waith ar draws y rhaglen i ymdrin â'r rhain.

6.24 Mae cyfarfodydd adolygu chwarterol ffurfiol yn parhau i gael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a staff y rhaglen a chyflwynwyd

cyfarfodydd anffurfiol bob pythefnos yn ystod y pandemig. Ystyriwyd bod y ddau drefniant yn gweithio'n dda.

6.25 Yn sgil cyflwyno model damcaniaeth newid ac offer monitro newydd, mae prosesau gwaith newydd yn cael eu mabwysiadu ar draws y rhaglen. Adeg y gwaith maes, roedd CDC yn ymwybodol o'r angen i adolygu canllawiau gweithredu'r rhaglen i adlewyrchu'r prosesau newydd hyn. Mae'r offer monitro a roddwyd ar waith yn dal i fod yn newydd a bydd yn cymryd amser i'w treialu, eu hadolygu a'u mireinio yn ogystal â'u defnyddio gan staff mewn modd cyson. Yn y pen draw, dylai eu defnydd arwain at fwy o gysondeb yn y data a gesglir gan y rhaglen am y gwahaniaeth a wneir i sefydliadau a chyfranogwyr.

6.26 Gallai fod gwerth sylweddol i'r data a gesglir gan CDC am sgiliau digidol staff ar draws y sefydliadau a gefnogir gan y rhaglen drwy ddefnyddio ei offeryn archwilio sgiliau, gan y bydd hyn yn ychwanegu at y data sydd ar gael ar sgiliau digidol y gweithlu i ategu'r wybodaeth sydd ar gael drwy ffynonellau eraill megis Mynegai Digidol Lloyds ac Arolwg Cenedlaethol Cymru.

## 7. Profiadau sefydliadau a gefnogir

7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried darpariaeth CDC i'r sefydliadau yn yr astudiaethau achos a'r gwahaniaeth a wneir i sefydliadau a chyfranogwyr. Mae'n seiliedig yn bennaf ar adborth gan ddeg sefydliad astudiaeth achos a lleoliad cartref gofal.

7.2 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar dri o'r chwe maes gwaith allweddol a nodir ym model Damcaniaeth Newid diwygiedig CDC, gan mai dyma'r prif feysydd cymorth y mae sefydliadau yn yr astudiaethau achos yn manteisio arnynt. Y meysydd hyn yw:

- hyfforddiant ar weithgaredd digidol sy’n ceisio gwella sgiliau digidol sylfaenol a hyder staff, gwirfoddolwyr ac aelodau/defnyddwyr er mwyn eu galluogi i ymgysylltu’n ddigidol yn eu bywydau bob dydd a'u bywydau gwaith
- rheoli dyfeisiau a chysylltedd, gan gynnwys benthyca offer er mwyn gwella mynediad at gyfarpar digidol a chysylltedd
- ymgynghoriad lle mae CDC wedi rhoi cyngor a chymorth i sefydliadau, yn aml ynghylch datblygu strategaeth, gyda’r nod o wreiddio cynhwysiant digidol o fewn strategaeth a darpariaeth sefydliadol.

**Hyfforddiant ar weithgaredd digidol**

7.3 Mae hyfforddiant rhithwir wedi bod yn rhan bwysig o ddarpariaeth CDC dros y 12 mis diwethaf. Er mai aelodau o'r cyhoedd a oedd yn mynychu'r sesiynau hyfforddi yn bennaf yn ystod cyfnodau clo y pandemig, maent wedi ailddechrau canolbwyntio ar anghenion sefydliadau partner ers hynny.

7.4 Mae adborth gan y tîm cyflawni yn awgrymu bod dull mwy strategol yn cael ei fabwysiadu bellach ar draws yr hyfforddiant digidol a ddarperir gan y rhaglen a disgwylir y bydd cyflwyno rôl rheolwr hyfforddiant newydd yn helpu i atgyfnerthu rhaglen hyfforddi CDC ymhellach. Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu cynllun darparu hyfforddiant a fydd yn atgyfnerthu'r dull hwn ymhellach.

7.5 Un newid allweddol fu rhoi mwy o bwysau ar gyrff ambarél a sefydliadau partner i recriwtio hyfforddeion gyda'r nod o leihau faint o waith recriwtio uniongyrchol a wneir gan CDC. Mae’r dull hwn wedi gweithio’n dda hyd yma gyda phartneriaid fel Gofal Cymdeithasol Cymru, Gofalwyr Cymru, a rhai awdurdodau lleol.

7.6 Bu newid nodedig hefyd i ganolbwyntio ar hyfforddiant y gellir ei barhau ar ôl i'r rhaglen ddod i ben. Yn achos Gofal Cymdeithasol Cymru er enghraifft, bydd modiwlau e-ddysgu yn cael eu rhoi ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru ac felly ar gael i’w gweithlu yn barhaus.

7.7 Mae CDC hefyd yn bwriadu cyfateb yr hyfforddiant yn well ag anghenion y cyfranogwyr a bydd mabwysiadu'r archwiliad sgiliau yn rhoi gwell gwybodaeth am anghenion sefydliadau cyn cyflwyno unrhyw ddarpariaeth.

7.8 Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau astudiaethau achos wedi cael hyfforddiant rhithwir CDC yn ystod y flwyddyn. Fel y nodwyd yn yr adroddiad proses a damcaniaeth newid yn 2020, roedd yr adborth ar ansawdd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn gyson gadarnhaol a disgrifiwyd yn aml bod hyfforddwyr yn mynd y tu hwnt i ofynion eu rôl i ddarparu cymorth a chyngor. Soniodd staff, gwirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaethau a oedd wedi cael hyfforddiant drwy CDC yn aml am broffesiynoldeb ac arddull briodol yr hyfforddwr, pa mor hawdd oedd gallu gofyn cwestiynau, ansawdd yr adnoddau a rennir a’r cymorth un-i-un a gynigir ar ddiwedd pob sesiwn hyfforddi i grynhoi'r elfennau penodol a gwmpaswyd. Roedd hyfforddwyr hefyd yn cael eu canmol yn aml am y wybodaeth ddilynol a ddarparwyd ar ôl y sesiynau.

7.9 Ym mhob lleoliad, roedd CDC wedi gallu cyflwyno darpariaeth wedi'i theilwra a nododd sefydliadau ystod eang o ganlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i hynny. Nodir tair enghraifft isod lle y cafodd hyfforddiant CDC ei groesawu'n frwd gan helpu i gynyddu hyder a sgiliau digidol a chyfrannu at ganlyniadau eraill fel gwella llesiant.

Bu CDC yn gweithio gydag un sefydliad cyfrwng Cymraeg i gyd-ddylunio a chyflwyno cwrs chwe sesiwn ar sgiliau digidol sylfaenol. Roedd y sesiynau'n cynnwys diogelwch ar-lein, cynnwys ar-lein, bancio ar-lein a chyfathrebu ac fe'u mynychwyd gan tua 50 o staff, gwirfoddolwyr ac aelodau. Yn ogystal, cyflwynodd CDC hyfforddiant ar bodlediadau a chreu straeon digidol i'r un sefydliad, a daeth rhyw 10 o unigolion i bob un ohonynt.

O ran y gwahaniaeth a wnaed, roedd yr hyfforddiant wedi helpu i wella hyder digidol; cynyddu gwybodaeth a lleihau pryderon am ddiogelwch ar-lein. Roedd yr hyfforddiant hefyd wedi helpu'r sefydliad i gynyddu nifer y cyfarfodydd ar-lein a gynhaliodd ar gyfer ei staff a'i aelodau. Dywedodd un aelod ei fod wedi defnyddio ei sgiliau newydd i sefydlu cyfarfodydd cangen ar-lein yn ystod y pandemig tra bod staff yn yr un modd yn teimlo'n fwy hyderus i gynnal cyfarfodydd ar-lein cenedlaethol a rhanbarthol. Mae argaeledd cyfarfodydd grŵp ar-lein wedi helpu i leihau unigrwydd, lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, gwella iechyd meddwl, ac atgyfnerthu'r teimlad o fod yn aelod o'r sefydliad. Dywedodd yr aelodau hefyd eu bod wedi defnyddio eu sgiliau digidol newydd a'u hyder i leoliadau eraill, megis gweithgareddau a grwpiau cymunedol eraill.

Cydnabu tîm byw'n annibynnol un awdurdod lleol yn ystod y pandemig y byddai angen i'w staff ddarparu cymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau dros y ffôn ac ar-lein. Darparodd CDC hyfforddiant pwrpasol tua diwedd 2020 i'r tîm a oedd yn cynnwys:

- dysgu am apiau addas ar gyfer defnyddwyr eu gwasanaethau (e.e. apiau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia),
- hyfforddiant mewn perthynas â diogelwch ar-lein a
- hygyrchedd ar ddyfeisiau Apple (gan nad oedd llawer o aelodau staff yn hyderus yn defnyddio dyfeisiau Apple yn benodol).

O ran y gwahaniaeth a wnaed, dywedodd y staff fod ganddynt fwy o hyder a gwybodaeth am ddyfeisiau digidol gan ychwanegu 'ni fyddem yn gwybod hyn i gyd heb hyfforddiant gan CDC'. Mae wedi cael effaith gadarnhaol iawn'. Ar ôl yr hyfforddiant, roedd y tîm yn teimlo ei fod mewn sefyllfa dda i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau yn eu cartrefi eu hunain i groesawu technoleg ddigidol yn ystod cyfnod y pandemig. Roedd staff yn cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau i greu cyfrif e-bost, lawrlwytho Zoom neu MS Teams a rhoi arweiniad iddynt ar sut i'w defnyddio, yn ogystal â'u cynghori ynghylch grwpiau i ymuno â nhw er mwyn lleihau unigrwydd. Roeddent hefyd yn teimlo'n hyderus i wneud addasiadau i ffonau a dyfeisiau llechen defnyddwyr gwasanaethau a lle nad oedd gan unigolion eu cyfarpar eu hunain, yn rhoi benthyg dyfais iddynt at y diben hwn. Sefydlodd y tîm nifer o grwpiau ar-lein ac roedd pob defnyddiwr gwasanaeth yn gysylltiedig ag o leiaf un o'r grwpiau ar-lein hyn. Trefnwyd cyfeiriadau e-bost ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth nad oedd ganddynt gyfeiriad e-bost yn flaenorol.

Mae adrannau eraill wedi dangos diddordeb yn y dull a fabwysiadwyd gan y tîm gwasanaethau annibynnol ac yn ystyried mabwysiadu dull tebyg, yn bennaf oherwydd ei fod wedi caniatáu i'r tîm gyrraedd a chefnogi defnyddwyr gwasanaethau mewn ffordd nad oedd modd ei wneud o'r blaen. Rhagwelir y bydd dull cyfunol yn parhau i fod ar gael yn y dyfodol:

'Roedden ni'n arfer helpu defnyddwyr ein gwasanaethau mewn lleoliadau cymunedol yn unig. Os nad oedd pobl yn mynychu, doedden ni ddim yn gallu darparu dewis arall heblaw galwad cyfeillio. Rydym yn cau’r bwlch hwnnw nawr. Byddwn yn cadw’r gwasanaeth digidol hwn am byth oherwydd mae wedi trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio. Mae hynny'n rhywbeth cadarnhaol y gallwn ei gymryd o Covid - mae gennym bellach wasanaeth i gefnogi defnyddwyr ein gwasanaethau a fydd yn parhau'.

Defnyddiodd un awdurdod lleol CDC i gynllunio a chyflwyno pecyn hyfforddiant i'r staff i'w galluogi i ddod yn hyrwyddwyr digidol yn y sefydliad. Aeth y sefydliad ati i recriwtio 30 aelod o staff a oedd yn ddigidol gymwys i ddod yn 'Bartneriaid Digidol'. Rhoddodd y Prif Weithredwr, a fu'n hyrwyddo'r rhaglen ar draws y sefydliad, anogaeth i'r staff ymuno â'r cynllun. Cyflwynwyd yr hyfforddiant cychwynnol mewn modd dwys dros gyfnod o wythnos yn gynnar yn 2021 ac roedd yn cynnwys pum sesiwn ar agweddau megis diogelwch ar-lein, mynediad ar-lein, cefnogi aelodau o'r gymuned yn ogystal â chefnogi cydweithwyr ar-lein. Cyflwynwyd tair o'r pum sesiwn gan CDC ac roedd y ddwy sesiwn olaf yn opsiynau hunanastudio a oedd ar gael drwy Digital Unite. Mae data o adborth a gasglwyd yn syth ar ôl y sesiynau gan yr awdurdod lleol yn dangos bod yr hyfforddeion yn fodlon iawn ar yr hyfforddiant, bod y ddarpariaeth o ansawdd da iawn a bod y cynnwys yn ddefnyddiol i'r staff. Dywedodd y staff eu bod wedi magu mwy o hyder ac wedi cael gwybodaeth newydd – yn enwedig am ddiogelwch ar-lein a sut i gefnogi 'unigolion ag anableddau yn well'.

Ymhlith y sylwadau a wnaed gan staff am yr hyfforddiant roedd y canlynol:

'Mae wedi rhoi dealltwriaeth i mi o'r dull gorau i'w ddefnyddio wrth oresgyn rhwystrau, ac ymgysylltu â gwahanol bobl a'u helpu i ddefnyddio dyfeisiau digidol gan gynyddu eu sgiliau digidol.'

'[mae'r hyfforddiant wedi rhoi] gwell dealltwriaeth i mi o'r anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu bob dydd oherwydd nad oes neb wedi dangos iddyn nhw sut i ddefnyddio'r dechnoleg'.

Diwygiwyd y cynnwys rhyw fymryn yn sgil adborth gan y garfan gyntaf, gan nad oedd yr hyfforddeion o'r farn bod y sesiwn ar gefnogi cwsmeriaid yn berthnasol i'w rolau ac mae'r hyfforddiant wedi cael ei ailadrodd ers hynny gyda charfan newydd o hyrwyddwyr digidol. Mae cyfanswm o 40 o staff bellach wedi'u hyfforddi fel Partneriaid Digidol. Ystyriwyd bod y dull a ddefnyddiwyd gan y sefydliad i weithredu'r cynllun yn effeithiol am dri rheswm: mae wedi cael ei hyrwyddo a'i gefnogi ar y lefel uchaf yn yr

awdurdod felly mae ganddo statws uchel; roedd staff yn gallu dilyn yr hyfforddiant yn wirfoddol ac mae'r cynllun wedi'i reoli'n effeithiol gan ei fod wedi elwa o adnoddau cydlynu pwrpasol.

Cafwyd adborth gan ddau hyfforddai fel rhan o'r gwerthusiad ac roedd y ddau yn mynegi safbwyntiau gwrthgyferbyniol am y gwahaniaeth yr oedd yr hyfforddiant wedi'i wneud. Cymerodd y ddau hyfforddai ran yn y cynllun am resymau tebyg, sef i helpu cydweithwyr gyda materion digidol a TG. Roedd un o'r farn bod yr hyfforddiant wedi bod yn ddefnyddiol gan ei fod wedi ei helpu i ddatblygu technegau hyfforddi y mae wedi'u defnyddio ers hynny i gynorthwyo unigolion ag amrywiaeth o dasgau ymarferol fel 'mynediad at hyfforddiant ar-lein, cwblhau arolygon ar-lein, cadw ffolderi, ailenwi ffolderi, mynediad at negeseuon e-bost, ychwanegu atodiadau a rhannu calendr'. Roedd cymryd rhan yn yr hyfforddiant wedi gwneud i'r ail sylweddoli nad oedd 'lefel fy sgiliau digidol hanner cystal ag yr oeddwn i'n meddwl' gan wneud iddo sylweddoli ei fod 'ddim mewn unrhyw sefyllfa i helpu eraill' gyda chyngor neu gefnogaeth ar faterion digidol.

7.10 Yn y rhan fwyaf o achosion mae'n ymddangos bod yr hyfforddiant ar y lefel gywir a gwerthfawrogwyd y ffaith ei fod ar gael yn rhad ac am ddim, yn enwedig gan sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau elusennol. Soniodd sawl sefydliad am wybodaeth ddilynol a ddarparwyd gan hyfforddwyr a'r ffaith bod hyfforddwyr yn ymateb yn gyflym i geisiadau pellach gan hyfforddeion.

7.11 Dim ond ambell enghraifft a ganfuwyd lle roedd yr hyfforddiant yn amhriodol ym marn yr hyfforddeion.

Cyflwynodd CDC ddwy sesiwn hyfforddi'r hyfforddwr i staff gwasanaethau llyfrgell mewn un Bwrdd Iechyd gyda'r nod o godi eu hyder i gefnogi eraill gyda sgiliau a gwybodaeth ddigidol. Y bwriad yn wreiddiol oedd i staff y llyfrgell drosglwyddo eu gwybodaeth i wirfoddolwyr mewn ysbytai a allai wedyn yn eu tro gefnogi staff anfeddygol ar draws y bwrdd iechyd, gan gynnwys staff domestig.

Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys dwy sesiwn hyfforddi rithwir a gynhaliwyd drwy MS Teams gyda phob un yn para am awr. Mynychodd cyfanswm o 11 aelod o staff y gwasanaethau llyfrgell yr hyfforddiant ar draws tri safle ysbyty. Roedd y sesiynau hyfforddi yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant yn ogystal â diogelwch ar-lein. Cyflwynwyd y cyfranogwyr i ystod eang o apiau a chynnwys gwefannau fel Spotify a BBC Sounds.

Roedd adborth gan un cyfranogwr yn awgrymu nad oedd y sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr wedi bod yn briodol iddo, ar y sail eu bod wedi'u cynllunio ar gyfer staff sy'n gweithio mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, yn hytrach na staff sy'n gweithio mewn llyfrgelloedd ysbytai sy'n darparu cymorth mwy arbenigol i staff y gweithlu sydd fel arfer yn tueddu i ymwneud ag addysg uwch neu ymchwil feddygol. Y brif gynulleidfa ar gyfer llyfrgelloedd ysbytai yw myfyrwyr ar leoliad a meddygon iau y mae angen mynediad at e-gyfnodolion, cyhoeddiadau academaidd, a chronfeydd data arnynt. Mae'r staff hyn fel arfer yn gymwys iawn yn ddigidol ac nid oes angen unrhyw gymorth arnynt o ran cynhwysiant digidol.

Er gwaethaf hyn, ystyriwyd bod yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan hyfforddwr gwybodus, rhagorol a chymwys iawn, ac roedd y cyfranogwyr wedi cael gwybod am rai apiau nad oeddent wedi clywed amdanynt o'r blaen. Roedd y cyfranogwr a gyfwelwyd wedi canfod bod yr hyfforddiant rhithwir drwy MS Teams wedi gweithio'n dda. Ni wnaethant ddysgu unrhyw sgiliau na gwybodaeth newydd yr oeddent yn meddwl y gallent eu rhannu ag eraill, yn bennaf oherwydd bod y staff y maent yn eu cefnogi yn ddigidol hyddysg ond hefyd oherwydd bod y pandemig COVID-19 wedi cyfyngu ar eu cysylltiad â gwirfoddolwyr mewn ysbytai i ganiatáu iddynt rannu unrhyw wybodaeth ddigidol.

### Rheoli dyfeisiau a chysylltedd

7.12 Roedd saith o sefydliadau'r astudiaethau achos wedi bod yn ymwneud mewn rhyw ffordd â ffrwd waith rheoli dyfeisiau a chysylltedd CDC. Yn

achos y byrddau iechyd, roedd hyn wedi golygu bod CDC wedi benthyca dyfeisiau fel llechi, Echo Dots a chyfarpar realiti rhithwir i staff rheng flaen er mwyn iddynt eu defnyddio gyda chleifion gartref, gyda'r nod o geisio cynnal eu hannibyniaeth gartref am gyfnod hwy.

> Yn achos un bwrdd iechyd, roedd therapyddion galwedigaethol sy'n gweithio gyda chleifion â dementia yn eu cartrefi wedi'i chael yn werthfawr cael mynediad at gyfarpar CDC i'w dreialu gyda chleifion gan y canfuwyd bod rhai mathau o gyfarpar yn fwy effeithiol nag eraill. Roedd hyn yn golygu nad oedd y bwrdd iechyd wedi gwastraffu adnoddau ar brynu cyfarpar amhriodol nad oedd yn diwallu anghenion cleifion. Er enghraifft, canfuwyd bod cyfarpar Echo Show yn well nag Echo Dots ar gyfer cleifion â dementia ar y sail bod ganddynt sgriniau mwy y mae cleifion yn ei chael yn haws rhyngweithio â nhw.

7.13 Roedd un sefydliad yn y trydydd sector wedi gallu cael mynediad at nifer fawr iawn o ddyfeisiau drwy raglen CDC a nododd ganlyniadau cadarnhaol i staff a defnyddwyr gwasanaethau:

> Yn dilyn proses ymgeisio, darparodd CDC 186 o ddyfeisiau i un gymdeithas dai yn y trydydd sector sy'n darparu llety i bobl anabl a chyn-filwyr drwy sefydliadau partner. Roedd y gymdeithas dai yn gallu nodi'r math o gyfarpar yr oedd ei angen arnynt er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion defnyddwyr eu gwasanaethau yn ogystal â bod yn briodol i gyfathrebu â'r darparwr cymorth. Nodwyd hyblygrwydd y broses fel cryfder gwirioneddol:
>
> 'roedd yn wych gallu cael mewnbwn gan CDC ar ba ddyfeisiau i'w defnyddio ac yna gweithio gyda nhw i ddarparu'r cyfarpar a oedd yn cyfateb i anghenion defnyddwyr ein gwasanaethau. Roedd hyn yn llawer gwell na dull un ateb sy'n addas i bawb'.
>
> Darparwyd cefnogaeth a hyfforddiant gan CDC i sicrhau bod y staff yn deall sut roedd y cyfarpar yn gweithio gan roi'r hyder a'r sgiliau iddynt eu harddangos i denantiaid. Ers hynny mae nifer o'r darparwyr cymorth wedi gweithio'n uniongyrchol gyda CDC i ehangu'r hyfforddiant i staff eraill.

Mae un darparwr o’r fath wedi cyflogi Gweithiwr Cynhwysiant Digidol ers hynny a oedd wedi canolbwyntio ar ymgorffori ymarfer cynhwysiant digidol da ar draws y sefydliad. Mae hyn wedi cynnwys annog staff i astudio modiwlau Learn My Way, penodi Hyrwyddwyr Digidol ar draws y sefydliad a rhannu gwybodaeth ddigidol gyda thenantiaid.

O ran y gwahaniaeth a wnaed, mae’r gymdeithas dai a’i sefydliadau partner wedi gallu cadw mewn cysylltiad â thenantiaid dros gyfnod y pandemig ac wedi helpu tenantiaid i oresgyn materion yn ymwneud ag ynysigrwydd ac unigrwydd. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig o ystyried bod gan lawer ohonynt anableddau dysgu neu'n wynebu heriau iechyd corfforol neu feddyliol eraill. Mae tenantiaid wedi ymateb yn gadarnhaol i’r cyfarpar digidol ac yn gwneud defnydd helaeth ohono i gael mynediad at grwpiau cymorth, cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu ac ar gyfer hobïau personol fel gwrando ar gerddoriaeth.

O ystyried graddfa helaeth y cydweithio hwn, mae'r gymdeithas dai wedi gweithio gyda CDC i gasglu adborth gan denantiaid gan ddefnyddio arolwg ar-lein.

Mae CDC wedi chwarae rhan allweddol o ran cefnogi'r gymdeithas dai i adeiladu a chynnal momentwm mewn perthynas â chynhwysiant digidol, yn enwedig o ran y ffordd y maent bellach yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau. Cydnabyddir bod angen i waith i uwchsgilio staff barhau gan fod lefelau sgiliau'n parhau i fod yn amrywiol ar draws y sefydliad a sefydliadau partner.

7.14 Casglwyd adborth yn ystod y gwerthusiad hwn am dreialu un cynllun a gyflwynwyd mewn partneriaeth â BT, lle roedd talebau poethfannau ar gael drwy CDC i grwpiau agored i niwed ledled Cymru er mwyn gwella cysylltedd digidol. Nodir isod yr adborth a gasglwyd am y cynllun peilot:

Yn ystod y cyfyngiadau symud yn 2020, sicrhaodd BT fod 500 o dalebau poethfannau ar gael i CDC eu dosbarthu ymhlith grwpiau agored i niwed ledled Cymru. Dosbarthodd y rhaglen y talebau drwy sefydliadau fel

Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Tîm Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) a Women Connect First.

Mae adborth gan un sefydliad sy'n ymwneud â'r cynllun yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r talebau a roddwyd iddynt wedi cael eu dosbarthu ac yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan unigolion. Sicrhaodd y sefydliad fod canllaw Saesneg clir ar gael i unigolion y rhoddwyd taleb iddynt ac, o bryd i'w gilydd, roedd yn rhaid iddynt weithio gyda chyfieithydd i sicrhau bod unigolyn yn gwybod sut i gael mynediad i'r Wi-Fi. Roedd y ffaith bod y cynllun yn dod i ben ym mis Mai 2021 yn destun pryder i'r sefydliad gan fod y talebau a oedd ar gael i rai teuluoedd ac unigolion yn cael ei ystyried yn 'achubiaeth ac yn fodd o atal hunanladdiad'. O ganlyniad i gael eu cysylltu'n ddigidol drwy'r talebau, roedd cleientiaid yn gallu cadw mewn cysylltiad ag aelodau o'r teulu a chael mynediad at wasanaethau sylfaenol gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, gweithwyr cymorth a mynediad at hawliadau Credyd Cynhwysol. Dywedodd un cynrychiolydd:

'Dw i ddim yn meddwl y byddwn ni byth yn gwybod gwir effaith y talebau BT, effaith bellgyrhaeddol y cymorth y manteisiwyd arno, yn enwedig y cymorth iechyd meddwl a'r canlyniadau cadarnhaol yn sgil hynny,'

Fodd bynnag, dywedodd staff cyflawni CDC fod y defnydd cyffredinol o'r talebau yn weddol fach ac mai dim ond rhyw 50 o dalebau a oedd wedi'u cofrestru a'u defnyddio gan unigolion. Canfuwyd bod y ddarpariaeth poethfannau wi-fi yn fwy cyfyngedig na'r disgwyl, a allai esbonio'n rhannol y lefel isel o ddefnydd, ac roedd adborth gan un sefydliad yn atgyfnerthu hyn gan nad oedd cleientiaid mewn rhai ardaloedd yn gallu defnyddio'r daleb gartref. Fodd bynnag, credwyd hefyd bod ffactorau eraill yn ymwneud ag angen, ymwybyddiaeth a sgiliau wedi effeithio ar y defnydd cyfyngedig. Roedd staff cyflawni yn ei chael hi'n anodd cyfiawnhau'r nifer cyfyngedig o ganlyniadau a gyflawnwyd o ystyried y ffaith bod y cynllun yn defnyddio llawer iawn o adnoddau gweinyddol ac awgrymwyd y gellid ymchwilio i ddulliau llai dwys ar adnoddau yn y dyfodol pe bai cynllun tebyg yn cael ei gyflwyno.

| |
|---|
| Roedd adborth gan un sefydliad a fu’n ymwneud â’r cynllun yn awgrymu y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael adborth ar faint o’r talebau a ddefnyddiwyd a pha unigolion a oedd yn eu defnyddio er mwyn iddynt allu archwilio a nodi unrhyw rwystrau a, lle y bo’n briodol, darparu cymorth pellach i gynyddu’r defnydd ohonynt neu fynd i'r afael ag unrhyw faterion technegol. |

7.15 Cyfwelwyd ag un cartref gofal fel rhan o’r astudiaeth hon ac er bod angen bod yn ofalus peidio â gorgyffredinoli ar sail ei brofiadau, mae, serch hynny, yn astudiaeth achos dda o sut y mae cyfarpar sydd ar gael drwy CDC wedi cael ei ddefnyddio ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i staff a phreswylwyr:

| |
|---|
| Ar ddechrau'r pandemig, cysylltodd CDC â lleoliad gofal preswyl preifat sy'n gofalu am hyd at 60 o breswylwyr â dementia, gan gynnig tri iPad iddo i'w defnyddio. Mae'r cartref gofal wedi defnyddio dau o'r rhain, gan roi'r trydydd mewn cabinet dan glo rhag ofn y byddai'n 'mynd ar goll'. Roedd yn haws monitro diogelwch dau iPad gan eu bod wedi'u neilltuo i rannau penodol o'r cartref gofal. Ers hynny mae'r trydydd iPad wedi cael ei ddychwelyd i'r prosiect i'w ddefnyddio yn rhywle arall.<br><br>Mae’r ddau iPad wedi cael eu defnyddio’n helaeth gan y staff, ar gyfer cymryd rhan mewn cyfarfodydd Teams a mynychu sesiynau hyfforddi staff rhithwir, yn ogystal â chan breswylwyr, sydd wedi gallu cadw mewn cysylltiad â’u teuluoedd, mynychu rhith-apwyntiadau gyda meddygon teulu a defnyddio’r cyfarpar ar gyfer adloniant a diddordebau personol e.e. apiau creadigol. Maent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ar draws y cartref gofal gan staff a phreswylwyr.<br><br>Cyn ymgysylltu â CDC, nid oedd gan y cartref gofal unrhyw iPads ond roedd yn defnyddio cyfrifiaduron personol a ffôn clyfar, a defnyddiwyd yr olaf i anfon negeseuon testun ac ar gyfer What's App.<br><br>Er bod CDC wedi cynnig darparu hyfforddiant i staff ar ddefnyddio'r iPads, gwrthododd y cartref gofal gan ddweud y byddai'n well ganddo 'weithio hyn allan ein hunain. Mae ein staff yn eithaf da a gallent ei |

ddefnyddio heb unrhyw gymorth. Fe wnaethon ni eu rhoi ar waith ein hunain... roedd yn eithaf hawdd a dweud y gwir'. Ar y cyfan, roedd y staff yn hyderus iawn wrth ddefnyddio'r iPads ac er nad oedd yr un ohonynt wedi mynychu unrhyw gyfarfodydd Teams na hyfforddiant o'r blaen, roeddent yn ei chael hi'n gymharol hawdd defnyddio'r dyfeisiau hyn.

Ar ddechrau 2021, cyflwynwyd cyrsiau ar-lein i staff gofal cymdeithasol ac mae'r iPads wedi cael eu defnyddio'n helaeth gan staff i fynychu hyfforddiant achrededig Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar bynciau fel diogelu, ffiniau proffesiynol, galluedd meddyliol, a meddyginiaeth. Mae'r hyfforddiant yn orfodol ac oni bai ei fod yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth drwy iPads byddai'r cartref gofal wedi cael trafferth yn cefnogi staff i fynychu'r sesiynau. Yn amlwg, byddai'r cartref gofal wedi gorfod prynu'r cyfarpar i alluogi staff i fynychu hyfforddiant gorfodol (neu fel arall byddai wedi torri canllawiau AGC) ond canfuwyd bod amseriad cynnig CDC yn berffaith: 'daethon nhw ar yr union adeg iawn'.

O ran y gwahaniaeth a wnaed i drigolion, roedd gan ddau ohonynt iPads eu hunain eisoes ond nid felly'r trigolion eraill. Roedd staff yn defnyddio'r iPads i gysylltu preswylwyr a pherthnasau. Ychydig iawn y mae preswylwyr â dementia yn ei gyfathrebu ar lafar felly mae cyfarfodydd wyneb-wyneb yn dueddol o fod yn weledol yn hytrach na llafar h.y. roedd yn galonogol i berthnasau weld bod eu perthnasau yn iach yn ystod y pandemig.

**Ymgynghori lle y rhoddodd CDC gyngor a chymorth i sefydliadau**

7.16 Roedd y tri bwrdd iechyd a'r ddau awdurdod lleol a gyfrannodd at y gwerthusiad wedi cael cyngor a chymorth gan CDC. Ym mhob achos, roedd CDC hefyd wedi cefnogi'r sefydliadau gyda phrosiectau ar lefel adrannol. Ar draws y ddau awdurdod lleol, roedd CDC wedi ymgysylltu â thimau sy'n ymwneud ag anghenion cymhleth, gwasanaethau byw'n annibynnol, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau oedolion, timau diogelwch cymunedol a gwasanaethau llyfrgell, er bod ymgysylltiad â gwasanaethau llyfrgell dros gyfnod y pandemig wedi bod yn gyfyngedig yn

y ddau achos. Ar draws y tri bwrdd iechyd, roedd y rhaglen wedi ymgysylltu ag ystod eang o wasanaethau gan gynnwys timau therapi galwedigaethol iechyd meddwl oedolion, timau therapi galwedigaethol anableddau dysgu, timau therapi galwedigaethol dementia, gwasanaeth cyngor a chyswllt i gleifion, gofal canser, TG, ystadau a chyfleusterau yn ogystal â gwasanaethau llyfrgell mewn ysbytai.

7.17 Mae’r adborth a gasglwyd yn awgrymu bod CDC yn dechrau ymgysylltu’n llwyddiannus ag uwch staff strategol a dylanwadu ar ddatblygiad polisi sefydliadol mewn nifer fach iawn o sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol: roedd hyn yn wir yn un o’r awdurdodau lleol ac un bwrdd iechyd a gyfrannodd at y gwerthusiad.

7.18 Mewn un awdurdod lleol mae'r agenda ddigidol yn cael ei hyrwyddo gan y Prif Swyddog Gweithredol ac mae CDC yn ymgysylltu â'r sefydliad ar lefel cynllunio strategol ac ar lefel cyflawni gweithredol. Mae CDC wedi chwarae rhan mewn cynghori'r awdurdod lleol ar faterion strategol, drwy gyfrannu cyngor ac adborth i'r sefydliad pan oedd yn diweddaru ei strategaeth cynhwysiant digidol yn ddiweddar. Mae’r rhaglen hefyd wedi gallu ymgysylltu â Llysgennad Digidol yr awdurdod lleol a'i gefnogi. Mae hon yn swydd gymharol newydd a grëwyd o fewn y sefydliad sydd â'r cylch gorchwyl o hyrwyddo a chefnogi cynhwysiant digidol ar draws cymunedau. Mae cynghorydd CDC hefyd yn cyfrannu at Fwrdd Cymunedau Cynhwysiant Digidol yr awdurdod lleol i nodi cyfleoedd ac i roi cyngor i rwydwaith ehangach o bartneriaid lleol.

7.19 Mewn awdurdod lleol arall, nid yw CDC wedi gallu creu cysylltiad â Phrif Swyddog Digidol yr awdurdod lleol ac er gwaetha'r ffaith i'r rhaglen geisio cysylltu ag ef ar sawl achos, ystyrir bod diffyg ymgysylltu gan ddeiliad y swydd hon yn rhwystro ymrwymiad ar lefel strategol i ddatblygiadau cynhwysiant digidol ar draws yr awdurdod. Ychwanegodd cynghorydd y rhaglen CDC 'petaem ond yn gallu cysylltu â'r Prif Swyddog Digidol... gallai agor llawer o ddrysau i ni'. Erys problem allweddol yn yr ystyr er bod prosiectau da yn digwydd ar draws yr awdurdod, yn aml nid yw un adran yn ymwybodol o'r hyn y mae eraill yn ei wneud o ran cynhwysiant digidol ac mae'r dull gweithredu'n dameidiog.

7.20 Mae’r un sefyllfa wrthgyferbyniol hefyd yn wir am fyrddau iechyd. Mewn un achos, gyda BIPBC, mae CDC wedi gallu sefydlu cysylltiadau ag unigolion strategol allweddol o bob rhan o’r bwrdd iechyd ac wedi chwarae rhan weithredol yn natblygiad strategaeth ddigidol y bwrdd iechyd, Ein Dyfodol Digidol[24]. Cynghorodd a chefnogodd CDC y bwrdd iechyd drwy adolygu ac ail-lunio'r strategaeth, yn enwedig i sicrhau ei bod yn myfyrio ar bryder y cyhoedd am bobl a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Roedd CDC hefyd yn cefnogi drafftio fersiwn Saesneg clir o'r strategaeth. Credwyd bod mewnbwn gam CDC wedi arwain at gyhoeddi dogfen sy'n ymdrin â chynhwysiant digidol mewn ffordd gynhwysfawr. Ers ei chyhoeddi, mae CDC wedi parhau i chwarae rôl gynghori strategol ar draws y bwrdd iechyd ac mae cynghorydd CDC yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol.

7.21 Mae'r strategaeth hefyd yn ymrwymo BIPBC i fabwysiadu'r Siarter Cynhwysiant Digidol a chofrestru fel aelodau o DIAW. Hyd yma, nid yw’r bwrdd iechyd wedi ymuno â DIAW, ac mae’r adborth yn awgrymu mai diffyg amser yw’r prif ffactor sydd i gyfrif am hyn.

7.22 Yn y ddwy astudiaeth achos arall gyda byrddau iechyd, mae CDC wedi ymgysylltu â'r sefydliadau ochr yn ochr, gan weithio gydag un adran ar ôl y llall. Yn yr achosion hyn mae CDC yn cyfrannu at adeiladu momentwm ar draws sefydliadau ac yn cefnogi agenda fwy esblygol. Mewn achosion o'r fath, mae CDC wedi bod yn dibynnu ar hyrwyddwyr adrannol sydd â diddordeb mewn materion digidol ac mae wedi bod yn bwysig i'r rhaglen ddefnyddio prosiectau llwyddiannus fel prosiectau arddangos i adrannau eraill er mwyn cyflawni'r effaith 'pelen eira' hon.

7.23 Ceir enghreifftiau niferus lle mae CDC wedi gweithio'n effeithiol gydag adrannau unigol ar draws awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae enghreifftiau wedi'u nodi isod. Mewn rhai achosion, dim ond megis dechrau yr oedd rhai prosiectau adeg ein gwaith maes felly roedd yn rhy fuan i nodi'r effaith ar gleifion a defnyddwyr gwasanaethau.

---

[24] Strategaeth Digidol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gig.cymru)

Mae CDC wedi cefnogi dau dîm therapi galwedigaethol mewn un bwrdd iechyd sy'n gweithio gyda chleifion ag anableddau iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn y drefn honno. Roedd y ddau dîm wedi nodi potensial technoleg ddigidol i gefnogi eu gwaith gyda chleientiaid ac wedi ceisio ymgysylltu â CDC i ddatblygu eu gallu a'u sgiliau o ran technoleg ddigidol gynorthwyol. Roeddent yn cydnabod bod eu defnydd o dechnoleg ddigidol wedi bod yn gyfyngedig oherwydd prinder dyfeisiau digidol i'w defnyddio gyda chleifion, diffyg cyllid i dalu costau data ffonau symudol, diffyg hyder ymysg y staff a phryderon ynghylch 'gwneud pethau'n anghywir'.

Dechreuwyd ymgysylltu â CDC yn ystod camau cynnar y pandemig er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ynysigrwydd ac unigrwydd a brofir gan gleifion â phroblemau iechyd meddwl ac anabledd dysgu. Cafodd y ddau dîm fynediad at gyfarpar digidol, cyngor, a hyfforddiant wedi'i deilwra drwy'r rhaglen. Mynychodd staff therapi galwedigaethol hyfforddiant a oedd yn cwmpasu hygyrchedd, cyfathrebu ar-lein, a defnyddio seinyddion clyfar i gefnogi byw'n annibynnol. Cawsant gyngor ar ddefnyddio cyfarpar CDC y gallai staff ei ddefnyddio a'i fenthyg i bobl yn y gymuned a chefnogwyd y timau gydag ystyriaethau ymarferol megis paratoi cytundebau benthyciad drafft, trafod protocolau diogelwch, a sicrhau bargeinion da ar ddata symudol gan ddarparwyr.

Roedd yr adborth gan staff ar yr hyfforddiant a'r cymorth a ddarparwyd yn rhagorol:

'Mae CDC wedi bod yn fendith. Dw i wedi dysgu cymaint gan y rhaglen'

'Mae'r hyfforddiant yn gryno, yn hyblyg ac yn hwyliog. Mae'n hawdd iawn siarad â nhw, ac ni allaf eu canmol ddigon'.

Mae'r ddau dîm bellach yn cyflwyno'r cymorth i gleifion ar draws rhanbarth y bwrdd iechyd ac yn dechrau defnyddio'r cyfarpar i ddangos i gleifion sut y gall eu helpu gyda'u bywydau bob dydd ond mae'r prosiect yn dal yn ei ddyddiau cynnar. Bydd staff yn cael eu cefnogi gan Swyddog

Cynhwysiant Digidol penodedig a fydd yn mynd gyda nhw ar ymweliadau cychwynnol â chleifion.

O ran y gwahaniaeth a wnaed, mae’r timau’n credu eu bod wedi gallu darparu cymorth mwy pwrpasol ac effeithiol i gleifion yn y gymuned, maent yn fwy hyderus o ran dangos sut y gall cleifion ddefnyddio technoleg ddigidol ac mae cleifion yn elwa o allu byw’n annibynnol gartref. Soniodd y staff am sawl enghraifft lle roedd cleifion wedi elwa o ddefnyddio technoleg ddigidol. Er enghraifft, rhoddodd un claf a oedd wedi bod yn cael trafferth gyda phroblemau iechyd meddwl ac alcohol y gorau i yfed a gwelodd welliant yn ei hiechyd meddwl o ran gallu ymgysylltu â phobl eraill, mwynhau diddordebau newydd a gwrando ar gerddoriaeth drwy'r ddyfais llechen a ddarparwyd iddo.

Mae un awdurdod lleol wedi nodi'r angen i gynyddu cyfranogiad digidol ymhlith oedolion a gefnogir a chanddynt anawsterau dysgu ac mae wedi penodi rheolwr prosiect i nodi bylchau a chyfleoedd sgiliau staff ar draws tîm anghenion cymhleth yr awdurdod er mwyn gwireddu'r amcan hwn. Cynhaliodd yr awdurdod ei archwiliad sgiliau digidol ei hun o staff er mwyn canfod beth oedd y llinell sylfaen ac nid oedd yn ymwybodol bod offeryn o'r fath ar gael gan CDC. Nid yw wedi darparu unrhyw hyfforddiant i'w staff eto ac mae ei ymwneud â CDC wedi bod yn weddol gyfyngedig hyd yma.

Adeg y gwaith maes, roeddent ar fin treialu'r defnydd o glustffonau Realiti Rhithwir drwy'r rhaglen i'w defnyddio gyda defnyddwyr gwasanaethau mewn canolfan ddydd. Yn yr achos hwn, ystyriwyd ei bod yn rhy gynnar i nodi manteision ymgysylltu â CDC er bod cynrychiolwyr o'r awdurdod o'r farn y byddent yn parhau i ymgysylltu â CDC er mwyn cael gafael ar becyn ychwanegol neu wahanol i'w ddefnyddio gyda defnyddwyr gwasanaethau, gan y byddai hyn yn eu helpu i brofi gwerth technoleg o'r fath cyn buddsoddi ynddi eu hunain.

7.24 Dywedodd y rhan fwyaf o'r sefydliadau yn yr astudiaethau achos eu bod yn gwneud mwy o ddefnydd o ddulliau digidol i gyfathrebu â’i gilydd ac i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau drwy ddulliau digidol ers dechrau’r pandemig ac mewn llawer o achosion, roedd hyfforddiant a chymorth CDC wedi eu helpu i gyflawni hyn. Nodir dwy enghraifft isod:

Nid oedd un sefydliad, sy'n cefnogi cymunedau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, wedi darparu unrhyw gymorth digidol ffurfiol, wedi'i drefnu ar gyfer defnyddwyr eu gwasanaethau o'r blaen. Fodd bynnag, amlygodd y pandemig faint y gagendor digidol ymhlith ei grŵp o gleientiaid e.e. nid oedd llawer o deuluoedd yn gallu cynorthwyo gydag addysgu eu plant yn ystod y pandemig oherwydd materion yn ymwneud ag iaith yn ogystal â diffyg mynediad digidol, cysylltedd a sgiliau. Roedd ymgysylltu â CDC ar yr adeg hon felly yn ddatblygiad rhesymegol i'r sefydliad. Manteisiodd staff y sefydliad ar hyfforddiant CDC a theimlwyd eu bod wedi'u paratoi'n well i ddarparu cymorth drwy sesiynau Zoom i gleientiaid o ganlyniad i hynny. Ers COVID-19, mae llawer o’i wasanaethau wedi parhau i gael eu darparu'n ddigidol.

Mae'r sefydliad yn bwriadu parhau i ddarparu gwasanaethau drwy ddull cyfunol yn y dyfodol. Mae hefyd yn ystyried sut y gall hyrwyddo cynhwysiant digidol ymhellach ymhlith ei grŵp cleientiaid drwy ddatblygu strategaeth cynhwysiant digidol, creu rôl ar gyfer swyddog cynhwysiant digidol a darparu cymorth a gwasanaethau cynhwysiant digidol. Mae'r sefydliad hefyd yn awyddus i gyflwyno cyrsiau llythrennedd digidol ar gyfer eu grŵp cleientiaid ac yn gweld rôl i CDC ei gefnogi gyda'r datblygiad hwn.

Cafodd un sefydliad sy'n hosbis elusennol becyn cymorth cynhwysfawr gan CDC sydd wedi cynnwys deg iPad ar fenthyg yn ogystal â hyfforddiant i staff. Mae'r hyfforddiant wedi cynnwys hyfforddiant sgiliau digidol rhagarweiniol chwe wythnos ar gyfer 18 aelod o staff a chwrs Cyfaill Digidol i reolwyr i'w galluogi i helpu pobl i fynd ar-lein.

Mae’r hyfforddiant wedi arwain at fwy o hyder ymhlith staff ac wedi cynyddu eu sgiliau digidol. Mae hefyd wedi bod o fudd i’r sefydliad o ran gwella effeithlonrwydd a lleihau costau – yn flaenorol, roedd y staff yn ei chael hi’n heriol ymuno â chyfarfodydd tîm ar-lein ac fe dreuliodd cydweithwyr lawer o amser yn eu cefnogi i wneud hynny. Gyda mwy o hyder a sgiliau, mae angen llai o gymorth ar y staff i gymryd rhan mewn cyfarfodydd digidol a digwyddiadau hyfforddi. Mae'r mudiad wedi gweld lleihad mewn costau tanwydd a chostau theithio a defnydd mwy effeithlon o amser yn sgil y ffaith bod gwirfoddolwyr a staff yn gallu mynychu hyfforddiant gorfodol (e.e. iechyd a diogelwch) ar-lein.

## 8. Casgliadau ac argymhellion

8.1 Mae’r bennod hon yn cyflwyno ein casgliadau a’n hargymhellion ar gyfer y dyfodol. Mae wyth thema allweddol i'n casgliadau.

**Casgliadau**

*Thema 1: mae achos cryf dros barhau â CDC ar ôl 2022*

8.2 Mae lefelau cynhwysiant digidol wedi gwella yng Nghymru, ac wedi’u sbarduno yn ystod 2020 gan yr angen i bobl ddefnyddio ystod ehangach o wasanaethau a thasgau yn ddigidol oherwydd y pandemig. Ac eto, mae’r ffaith bod y defnydd o dechnoleg ddigidol yn parhau i fod yn is yng Nghymru nag unrhyw ranbarth arall yn y DU yn awgrymu bod achos cryf o hyd dros ymyrraeth barhaus. Ymhellach, mae’r pandemig wedi arwain at gyflymu darpariaeth ddigidol a gwasanaethau digidol sydd wedi codi’r bar o ran y sgiliau a’r hyder sydd eu hangen bellach i bobl gael eu ‘cynnwys yn ddigidol’ sy’n golygu bod modd cyfiawnhau cefnogaeth barhaus i gymunedau sydd wedi’u hallgáu’n ddigidol.

8.3 Roedd y cyd-destun polisi a'r cyd-destun strategol ar gyfer CDC yn gefnogol, hyd yn oed cyn dyfodiad y pandemig COVID-19. Cryfhawyd hyn ymhellach yn ystod 2020 a 2021 yn sgil cyhoeddi Rhagolwg Cynhwysiant Digidol a Strategaeth Ddigidol i Gymru gan Lywodraeth Cymru. Mae'n debygol o gael ei wella ymhellach gan y strategaeth arfaethedig ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol a gwaith y Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal. Mae ymrwymiadau polisi diweddar yn rhoi mwy o ffocws ar dlodi data, y rhai sydd newydd gael eu hallgáu’n ddigidol a rhoi sgiliau digidol i bobl. Mae CDC mewn sefyllfa dda ar hyn o bryd i ymateb i'r amcanion polisi hyn ynghylch cynhwysiant digidol ac i helpu i'w cyflawni.

8.4 Mae llu o ddatblygiadau digidol perthnasol eraill ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd a bydd yn hanfodol i CDC sefydlu ei hun fel galluogwr a phartner allweddol yn hynny o beth. Mae CDC mewn sefyllfa dda i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu a gweithredu eu strategaethau cynhwysiant digidol eu hunain. Mae angen i CDC sicrhau y gall ei rhaglen waith ymateb mewn modd sy'n helpu i gyflawni'r

blaenoriaethau digidol sy'n dod i'r amlwg a nodir yn y strategaethau cynhwysiant digidol hyn, gan gynnwys y rhai a nodir yng Nghynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd.

*Thema 2: Mae CDC wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi argymhellion blaenorol ar waith*

8.5 Bu newid sylfaenol yn y ffordd y mae CDC wedi mynd ati i gyflawni ei rhaglen waith dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae adborth yn awgrymu bod arweinyddiaeth gryfach ar waith ar gyfer y rhaglen; ei bod yn elwa o strwythur mwy priodol o ran yr uwch reolwyr a’i bod yn mabwysiadu prosesau gwell ar gyfer casglu data ac adrodd ar wybodaeth i Lywodraeth Cymru. Mae'n ymddangos bod penderfyniad i ailstrwythuro staff y rhaglen yn ddiweddar yn briodol ac yn gweithio'n dda. Mae'r rhaglen wedi gwneud rhywfaint o waith rhagorol i adolygu Damcaniaeth Newid CDC a sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng adnoddau staff a blaenoriaethau allweddol a'r canlyniadau y bwriedir eu cyflawni.

8.6 Mae DPA y rhaglen wedi cael eu hadolygu ac mae'r dangosyddion newydd yn fwy priodol, gan eu bod yn adlewyrchu amcanion y rhaglen yn well, ac maent yn fwy cyraeddadwy na'r rhai blaenorol. Mae offer monitro newydd wedi'u cyflwyno ond mae'n ddyddiau cynnar o hyd i ddod i unrhyw gasgliadau pendant am eu defnyddioldeb a'u gwerth. Prawf allweddol fydd i ba raddau y caiff offer monitro eu defnyddio'n gyson ar draws y rhaglen i gasglu data cymaradwy, defnyddiol.

8.7 O ran perfformiad, mae CDC ar y trywydd iawn o ran ei thargedau ar gyfer tri DPA newydd neu wedi rhagori arnynt. Mae fymryn ar ei hôl hi o ran ei pherfformiad ar ei phedwerydd DPA, er bod nifer digonol o sefydliadau yn yr arfaeth i awgrymu y bydd y targed hwn yn gyraeddadwy. Mae'r data canlyniadau a adroddwyd gan y rhaglen hyd yma yn galonogol, ac mae'r gyfran uchel iawn o unigolion a hyfforddwyd sy'n dweud bod y newidiadau'n gadarnhaol yn nodedig. Fel yr awgrymwyd yn yr adroddiad gwerthuso cam cyntaf, mae'n parhau i fod yn wir bod cyfran lai o unigolion yn dweud bod ganddynt well dealltwriaeth o sut i ddefnyddio technoleg i wella a rheoli eu hiechyd. Efallai bod hyn i'w briodoli i'r ffaith nad yw hyfforddiant CDC yn

canolbwyntio'n gyfan gwbl ar faterion iechyd a llesiant felly ni fyddai disgwyl i'r ddarpariaeth gyflawni'r canlyniadau hyn o reidrwydd.

*Thema 3: Mae CDC wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi DIAW ar waith ac mae mwy o eglurder ynghylch diben a chylch gwaith y gynghrair*

8.8 Yn ystod y flwyddyn mae DIAW wedi cymryd camau breision i roi trefniadau llywodraethu priodol ar waith, ennyn diddordeb a chefnogaeth gan aelodaeth eang yn ogystal â chyhoeddi agenda cynhwysiant digidol y mae'r aelodau yn ei chefnogi'n gryf. Ceir barn bod y strategaeth sy'n cael ei phennu gan DIAW yn briodol ac mae gan yr aelodau ddisgwyliadau mawr ynghylch effaith bosibl y gynghrair. Mae cael strwythur priodol a strategaeth fanwl yn golygu bod DIAW bellach mewn sefyllfa dda i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion cynhwysiant digidol yn y dyfodol yng Nghymru.

8.9 Byddai DIAW, fodd bynnag, yn elwa o sylfaen aelodaeth ehangach ac yn benodol cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n cefnogi neu'n cynrychioli cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, cymunedau Cymraeg eu hiaith a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Yn seiliedig ar ddiffyg effaith y Siarter ar sefydliadau sy'n aelodau o'r gynghrair, byddai hefyd yn fuddiol i DIAW adolygu a mynd i'r afael â'r diffyg gwerth a roddir gan aelodau ar y Siarter Cynhwysiant Digidol.

8.10 Un ystyriaeth allweddol i DIAW, a Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol, yw cynaliadwyedd y gynghrair yn yr hirdymor, o ystyried y disgwylir i gyllid CDC ddod i ben ym mis Mehefin 2022 ar hyn o bryd. Mae cryn gyfle i DIAW fodoli yn ei rhinwedd ei hun fel rhwydwaith annibynnol o sefydliadau sydd â diddordeb mewn gweithgarwch cynhwysiant digidol. Nid oes angen i'r gynghrair weithredu o reidrwydd o fewn cylch gwaith rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, er bod manteision clir o wneud hynny gan y gall fanteisio ar y trefniadau gweithio mewn partneriaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu a'r arbenigedd cyflawni. Pe bai CDC yn dod i ben, gallai sefydliad partner fod yn gyfrifol am DIAW, ond gallai beryglu annibyniaeth y gynghrair pe bai'n cael ei hariannu neu'n cael ei hadnoddau gan un sefydliad a chanddo ei agenda ei hun. Bydd angen ychydig o gyllid parhaus ar unrhyw rwydwaith yn y dyfodol i gefnogi costau gweinyddol.

*Thema 4: Mae'r ymgysylltu â sefydliadau partner wedi cynyddu ac mae gwersi'n cael eu dysgu am weithio'n fwy strategol ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol*

8.11 Ers gwanwyn 2021, mae CDC wedi gallu ailgysylltu'n llwyddiannus â sefydliadau, wrth iddynt hwy eu hunain ddod yn fwy cyfarwydd â gweithredu o fewn y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Mae'r ymgysylltu â sefydliadau'r trydydd sector wedi bod yn arbennig o gryf ond mae ymgysylltu â'r sector preifat yn parhau i fod yn her. Efallai y byddai'n werth ymchwilio i a allai CDC gyrraedd gweithwyr y sector preifat drwy lwybrau eraill yn hytrach na thrwy gyflogwyr y sector preifat e.e. drwy ddarparu hyfforddiant digidol drwy ddarpariaeth dysgu ar-lein undebau llafur megis Gwasanaethau Dysgu TUC Cymru.

8.12 Mae CDC wedi cael mwy o lwyddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran ymgysylltu ar lefel strategol â'r sector iechyd a gofal cymdeithasol drwy sefydliadau ambarél neu sefydliadau sy'n cael eu harwain gan aelodau, er mai ychydig iawn o enghreifftiau sydd o'r rhaglen yn ymgysylltu'n llwyddiannus â byrddau iechyd unigol ac awdurdodau lleol ar lefel strategol, sefydliadol. Byddai'n werth adeiladu ar ddulliau gweithredu ar draws y sector, megis y rhai a ddefnyddiwyd gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a Choleg Brenhinol y Bydwragedd, dros weddill cyfnod y rhaglen, yn bennaf oherwydd bod cyrhaeddiad sefydliadau sy'n seiliedig ar aelodau yn cwmpasu Cymru gyfan ac maent hefyd yn darparu llwybr cynaliadwy ar gyfer cynnal darpariaeth ac adnoddau yn yr hirdymor. Dylai CDC efelychu'r dulliau sector-cyfan hyn drwy weithio ag AaGIC (ar draws y maes iechyd) a CLlLC (ar draws awdurdodau lleol) yn ogystal â sectorau eraill fel tai (drwy Cartrefi Cymunedol Cymru) a fyddai'n symud o ddull tameidiog braidd o dargedu sefydliadau unigol tuag at ddull mwy strategol a fyddai'n gwneud defnydd effeithiol o adnoddau'r rhaglen.

8.13 Ceir achosion unigol lle mae CDC bellach yn cydweithio ar lefel strategol â byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Mae staff y rhaglen a sefydliadau CDC o'r farn bod hyn yn gweithio'n dda ac mae mewnbwn CDC yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygu polisïau ac ymarfer ar draws y sefydliad. Awgryma'r gwaith maes hefyd fod CDC wedi sicrhau mwy o ymgysylltiad ar

draws y sector iechyd dros y flwyddyn ddiwethaf er gwaethaf yr heriau'n gysylltiedig â'r pandemig, yn yr ystyr bod y rhaglen yn gweithio gyda nifer fwy o wasanaethau ac adrannau ar draws byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ochr yn ochr, gan greu momentwm ar draws sefydliadau mewn modd mwy esblygol. Ceir enghreifftiau niferus lle mae CDC yn gweithio'n effeithiol gydag adrannau a gwasanaethau unigol i gyflwyno ffyrdd digidol newydd o weithio, boed hynny yn y ffordd y mae staff yn gweithio nawr neu yn y ffordd y darperir gwasanaethau i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau gan ddefnyddio dulliau digidol.

*Thema 5: Mae CDC wrthi'n gwneud gwaith diddorol iawn i dargedu a chefnogi siaradwyr Cymraeg a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig*

8.14 Mae profiad CDC o ddatblygu cynnwys hyfforddi pwrpasol, sy'n ddiwylliannol sensitif er mwyn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg yn effeithiol iawn. Mae'r dull wedi bod yn llwyddiannus iawn a dylid ei amlygu fel arfer da o ran ymdrechion i helpu i wireddu strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Byddai'n fuddiol rhannu profiadau CDC ar draws meysydd polisi eraill lle mae Llywodraeth Cymru yn ariannu hyfforddiant gan ei fod yn dangos nad yw cyfieithu deunyddiau hyfforddi o'r Saesneg i'r Gymraeg yn ddigon i ddiwallu anghenion y garfan hon.

8.15 Mae'n cymryd camau tebyg i ddatblygu darpariaeth bwrpasol wedi'i theilwra ar gyfer cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Bydd yn bwysig bod yr elfen hon yn cael ei blaenoriaethu a'i hyrwyddo gan y rhaglen dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill.

*Thema 6: Mae benthyca cyfarpar ac offer ar eu pen eu hunain heb gymorth i gyd-fynd â hynny wedi bod yn llai effeithiol*

8.16 Neges gyffredin sydd wedi dod i'r amlwg o'r rownd hon o waith maes yw nad yw darparu cyfarpar digidol (dyfeisiau) neu gysylltedd (gan gynnwys talebau Wi-Fi) yn arbennig o effeithiol ar eu pen eu hunain, er bod sawl enghraifft lle mae adnoddau o'r fath wedi cael eu croesawu a'u defnyddio. Gwnaed y penderfyniadau i ddarparu dyfeisiau i gartrefi gofal a phobl ddi-waith yn ystod cyfnod o ymateb brys a bydd yn sicr wedi bod yn achubiaeth

hollbwysig i rai unigolion. Rydym yn gwerthfawrogi nad oedd amser i dreialu'r cysyniad ar raddfa fach cyn ei gyflwyno'n genedlaethol. Mae sawl gwers i'w dysgu o'r dulliau hyn, yn enwedig yr angen am gymorth priodol law yn llaw â'r adnoddau pan ddarperir adnoddau digidol yn y dyfodol. Mae CDC eisoes yn ymwybodol o'r mater hwn ac mae wrthi'n cyflwyno adnoddau a chymorth ychwanegol er mwyn ysgogi mwy o ddefnydd o ddyfeisiau ar draws y sector cartrefi gofal.

*Thema 7: Mae adborth gan sefydliadau a gefnogir ar werth ymyrraeth i staff a chyfranogwyr yn gadarnhaol*

8.17 Yn ôl y disgwyl, ni chyfeiriwyd at y newidiadau diweddar a wnaed gan CDC i ddarparu pecyn cymorth mwy cyson i sefydliadau eu hadlewyrchu yn yr adborth a gasglwyd yn ystod y cam hwn o'r gwerthusiad ond dylai hyn gael ei weld mewn gwaith maes yn y dyfodol. Ymddengys fod y newidiadau a gyflwynwyd yn briodol a byddant yn sicrhau mwy o gysondeb o ran y cynnig yn ogystal â darparu data llinell sylfaen mwy cyson e.e. drwy ddefnyddio un offeryn archwilio sgiliau digidol.

8.18 Mae hyfforddiant rhithwir wedi bod yn rhan bwysig o ddarpariaeth CDC dros y 12 mis diwethaf. Mae dull CDC o ddarparu hyfforddiant rhithwir yn dod yn fwy strategol ac yn ddoethach, a thros y cyfnod sy'n weddill byddai'r rhaglen yn elwa o ganolbwyntio ar hyfforddiant y gellir ei gynnal mewn rhyw ffurf ar gyfer y dyfodol. Mae adborth ar ansawdd, gwerth a budd yr hyfforddiant sydd ar gael yn parhau i fod yn rhagorol ac ategir hyn gan ddata monitro ar lefel prosiect. Darparodd y sefydliadau yn yr astudiaethau achos ddigon o dystiolaeth fod yr hyfforddiant a dderbyniwyd yn helpu i wella sgiliau digidol, gwella gwybodaeth a chynyddu hyder y staff. Darparodd y sefydliadau yn yr astudiaethau achos dystiolaeth dda hefyd sy'n dangos bod staff hyfforddedig yn rhannu ac yn defnyddio'r sgiliau digidol newydd hyn gyda chydweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae adborth a gafwyd yn bennaf gan staff rheng flaen yn awgrymu bod y defnydd o sgiliau digidol newydd ymhlith defnyddwyr gwasanaethau yn helpu i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, yn gwella iechyd meddwl ac yn helpu unigolion i deimlo eu bod yn perthyn i gymunedau o ddiddordeb.

8.19 Lle mae dyfeisiau wedi'u benthyca i sefydliadau yn yr astudiaethau achos fel rhan o becyn cymorth ehangach drwy CDC, mae'r adborth yn awgrymu bod adnoddau wedi cael eu croesawu a'u bod yn cyfrannu at greu canlyniadau digidol cadarnhaol i staff a defnyddwyr gwasanaethau. Credwyd bod defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi defnyddio cyfarpar digidol yn cael canlyniadau cadarnhaol tebyg i'r rhai a nodir uchod. Mae'r cyfarpar wedi chwarae rhan hanfodol o ran caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaethau gadw cysylltiad rhithwir â staff yn ystod y pandemig yn ogystal â chadw mewn cysylltiad â ffrindiau/teuluoedd a chynnal neu ddatblygu hobïau a diddordebau newydd. Mae'r rhaglen hefyd wedi chwarae rhan allweddol o ran cyflwyno staff a defnyddwyr gwasanaethau i ddyfeisiau arloesol, megis cyfarpar realiti rhithwir, ac mae'r adborth yn awgrymu bod CDC yn effeithiol o ran helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am dechnoleg newydd a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg.

*Thema 8: Blaenoriaethau eraill ar gyfer y dyfodol*

8.20 Dros y misoedd nesaf, mae angen i’r rhaglen fod yn realistig ynglŷn â’r hyn sy’n gyraeddadwy ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol o ystyried y bydd y cyfyngiadau amser ar staff yn cynyddu oherwydd pwysau iechyd y gaeaf. Dylai’r rhaglen flaenoriaethu ei gwaith strategol er mwyn ymgorffori cynhwysiant digidol yng Nghynlluniau Tymor Canolig Integredig a strategaethau digidol byrddau iechyd, gan adeiladu ar yr arfer da a sefydlwyd gyda BIPBC, drwy nodi nifer bach o fyrddau iechyd eraill y gall ddisgwyl gweithio â nhw dros y cyfnod cyflawni sy’n weddill.

8.21 Dylai Llywodraeth Cymru barhau i chwarae rhan allweddol o ran galluogi CDC i gymryd rhan yn y datblygiadau pwysig ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogi’r broses o roi'r datblygiadau hynny ar waith. Mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei flaenoriaethu gan y sector iechyd a gofal cymdeithasol a fydd, yn ei dro, yn darparu'r 'drws agored' y mae mawr ei angen ar CDC er mwyn ymgysylltu â'r sector.

8.22 Dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill, blaenoriaeth allweddol i CDC fydd archwilio sut y gall ddychwelyd i ddarparu rhywfaint o hyfforddiant wyneb

yn wyneb mewn lleoliadau lle mae cyfranogwyr yn teimlo'n ddiogel i ymgysylltu, gan dargedu grwpiau llai o gyfranogwyr o bosibl. Mae achos cryf i CDC sicrhau bod hyfforddiant rhithwir parhaus ar gael, gan fod yr adborth ar ddarpariaeth o'r fath wedi bod yn gadarnhaol. Byddai’n werth chweil felly ymchwilio i fodel hyfforddiant cyfunol ar gyfer y cyfnod cyflawni sy’n weddill. Bydd hefyd yn bwysig i CDC ddatblygu a darparu deunyddiau hyfforddi rhithwir y gellir eu hariannu'n barhaus ar ôl y rhaglen, gan nodi cyfleoedd i recordio gweminarau a darparu adnoddau hyfforddi ar wefannau sefydliadau partner.

**Argymhellion**

8.23 Isod, rydym yn nodi naw argymhelliad i Lywodraeth Cymru eu hystyried ar gyfer dyfodol y rhaglen CDC:

| | |
|---|---|
| **1** | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn y rhaglen CDC y tu hwnt i 2022, gan fod cyfiawnhad cryf dros wneud hynny o ran angen a pherfformiad y rhaglen hyd yma. |
| **2** | Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y rhaglen CDC mewn sefyllfa dda ac wedi'i galluogi ar lefel strategol i gefnogi'r gwaith o weithredu strategaethau digidol yn y dyfodol fel y rhai a amlinellir gan fyrddau iechyd yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig; yn ogystal â rhaglen waith y dyfodol a amlinellwyd gan y Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal. Yn yr un modd mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod CDC yn ymgysylltu'n weithredol â'r blaenoriaethau digidol a nodir yn Strategaeth y Gwasanaeth Arian a Phensiynau. |
| **3** | Byddai DIAW yn elwa o ganolbwyntio ar a chyflawni nifer bach o flaenoriaethau allweddol dros weddill y cyfnod cyllido er mwyn dangos gwerth y gynghrair a gwneud gwahaniaeth pendant. Byddai hefyd yn elwa o sicrhau cynrychiolaeth o sefydliadau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd o bob rhan o'r meysydd iechyd, y Gymraeg, a Chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. |

| | |
|---|---|
| **4** | Os na fydd y rhaglen CDC yn cael ei hariannu ar ôl 2022, mae angen ystyried cynaliadwyedd hirdymor DIAW ar unwaith. Beth bynnag a ddigwydd, mae angen i DIAW ymchwilio i sut y gallai barhau â'i gwaith yn y dyfodol. |
| **5** | Mae angen i CDC flaenoriaethu ac ystyried sut y gall ymgysylltu'n well â'r sector preifat, gan ymchwilio i ddulliau eraill lle y bo'n bosibl e.e. drwy undebau llafur i gyrraedd gweithwyr yn y sector preifat. |
| **6** | Dylai CDC adeiladu ar ei ddull llwyddiannus o weithio ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, drwy fapio a chysylltu â sefydliadau ambarél a sefydliadau aelodaeth cenedlaethol y gallai ymgysylltu â nhw, gan gynnwys mewn sectorau eraill lle y bo'n briodol. |
| **7** | Dylai CDC barhau i ddatblygu a darparu ei hatebion pwrpasol ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg a blaenoriaethu ei dull o ymgysylltu â Chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill. |
| **8** | Dylai CDC fyfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o'i ddull o fenthyca cyfarpar yn ystod y pandemig, ac yn y dyfodol sicrhau mai dim ond fel rhan o becyn cymorth ehangach i sefydliadau ac unigolion y bydd cyfarpar digidol ar gael yn hytrach nag ar eu pen eu hunain. |
| **9** | Mae angen i CDC ystyried sut y gall gynnig rhaglen gyfunol o hyfforddiant digidol dros weddill y cyfnod cyflawni, gan edrych lle y bo'n bosibl ar gynhyrchu adnoddau rhithwir y gellir eu hariannu gan sefydliadau partner ar ôl i'r rhaglen ddod i ben. |

## Atodiad A: Offerynnau ymchwil

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu pum canllaw trafod ansoddol ac arolwg ar-lein ar gyfer cam ymchwil sylfaenol y gwerthusiad interim o broses a chanlyniadau Cymunedau Digidol Cymru.

# Canllaw pwnc 1: Canolfan Cydweithredol Cymru a Phartneriaid Cyflawni

### A: Cefndir a chyflwyniad

Dywedwch wrthyf am eich rôl o fewn CDC / unrhyw newidiadau i'ch rôl ers i ni siarad ddiwethaf [ym mis Gorffennaf/Awst 2020]?

### B: Nodau a chylch gwaith

Pa newidiadau, os o gwbl, sydd wedi'u gwneud i gylch gwaith a blaenoriaethau'r rhaglen CDC ers mis Medi 2020?

Pa effaith y mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar y rhaglen ers mis Medi 2020?

- Pa effaith, os o gwbl, y mae'n ei chael ar broffil sefydliadau a chyfranogwyr sy'n ymgysylltu â CDC?
- Pa effaith, os o gwbl, y mae'n ei chael ar gymorth a darpariaeth?
- Pa mor dda, neu beidio, y mae'r rhaglen wedi gallu ymateb i'r heriau a gododd yn sgil y pandemig, yn eich barn chi?

Sut, os o gwbl, y mae dogfennau polisi a dogfennau strategol a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi dylanwadu ar raglen CDC? Holwch am:

- Rhagolwg Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru [25]
- Strategaeth Ddigidol i Gymru[26]
- O gynhwysiant i wydnwch – agenda ar gyfer cynhwysiant digidol yng Nghymru[27],[28]

---

[25] Rhagolwg cynhwysiant digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus

[26] Strategaeth ddigidol i Gymru

[27] Symud o gynhwysiant i gydnerthedd – agenda ar gyfer cynhwysiant digidol yng Nghymru (Cymunedau Digidol Cymru)

[28] Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (gov.wales)

Ym mha ffordd y mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad gwerthusiad proses a damcaniaeth newid wedi cael eu hystyried gan y rhaglen?

- Beth fyddech chi'n ei nodi fel y prif newidiadau/ystyriaethau sydd wedi llywio model Damcaniaeth Newid presennol CDC (a ddatblygwyd gan y prosiect yn ddiweddar)?

## C: Gweithredu

Pa newidiadau, os o gwbl, sydd wedi'u gwneud i'r model cyflawni a roddwyd ar waith gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'r ddau bartner cyflawni er mwyn cyflawni CDC ers mis Medi 2020?

- Pa mor effeithiol yw'r newidiadau hyn?
- Sut, os o gwbl, y gellid gwella'r model cyflawni ymhellach?

Beth yw eich barn am lefel bresennol yr adnoddau ac arbenigedd y staff a benodwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'r partneriaid cyflawni?

- Beth yw cryfderau a gwendidau'r strwythur staffio?
- A oes unrhyw fylchau o ran arbenigedd?

## D. Hyrwyddo a chyfathrebu

Sut y mae'r galw am CDC wedi newid ers mis Medi 2020?

- Ymhlith sefydliadau partner?
- Ymhlith cyfranogwyr a gwirfoddolwyr?

Pa mor dda, neu beidio, y mae'r rhaglen yn ymgysylltu â'r buddiolwyr yn y pedwar grŵp targed[29]?

- Beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wneud yn wahanol i ymgysylltu'n well ag unrhyw un o'r grwpiau hyn?

Pa mor dda, neu beidio, y mae'r rhaglen yn ymgysylltu â sefydliadau partner, gan gynnwys byrddau iechyd?

- Beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wneud yn wahanol i ymgysylltu'n well ag unrhyw un o'r grwpiau hyn?

---

1.1 [29] pobl hŷn 50+; pobl o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith; pobl anabl a thenantiaid tai cymdeithasol

Pa mor effeithiol fu gweithgareddau cyfathrebu a marchnata CDC ers mis Medi 2020?

- Sut y gellid gwella'r gweithgaredd cyfathrebu a marchnata?

## E. Darpariaethau i sefydliadau partner

Beth yw eich barn ar y cymorth a'r cyngor a ddarparwyd i sefydliadau?

- Beth oedd natur y cymorth a'r cyngor hwn?
- Pa mor effeithiol yw'r arolwg o sgiliau digidol hanfodol sydd newydd ei gyflwyno?
- Beth sydd wedi mynd yn dda?
- Pa heriau a gododd?

Beth yw eich barn ar yr hyfforddiant a ddarparwyd i sefydliadau (a/neu i gyfranogwyr)?

- Beth oedd natur yr hyfforddiant hwn?
- Beth sydd wedi mynd yn dda?
- Pa heriau a gododd?

Beth yw eich barn ar briodoldeb, ansawdd ac effeithiolrwydd y ffrydiau gwaith / mentrau eraill a gyflwynwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'i phartneriaid cyflawni hyd yn hyn fel rhan o CDC?

Holwch am:

- Cynlluniau Ymgynghori Digidol (a ddatblygwyd ar gyfer sefydliadau)
- Benthyca offer/cyfarpar i sefydliadau
- Cyfarpar ar gyfer cartrefi gofal
- Y rhaglen wirfoddoli Cyfeillion Digidol
- Y rhaglen wirfoddoli Hyrwyddwyr Digidol
- Cyrsiau Learn My Way
- Y Prosiectau Braenaru Cynhwysiant Digidol

I ba raddau y mae'r mentrau hyn wedi cael eu croesawu gan y sefydliadau targed?

- Holwch am lefel yr ymgysylltu yn ôl math o sefydliad (sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector)
- Holwch am ymgysylltu a barn gwirfoddolwyr a chyfranogwyr

## F. Y Gynghrair Cynhwysiant Digidol

Pa gynnydd y mae'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol wedi'i wneud?

- Beth oedd ei phrif gyflawniadau?
- Beth ydych chi'n gobeithio y bydd yn ei gyflawni?

Beth yw eich barn am effeithiolrwydd y gynghrair?

- Pa mor briodol yw ei strwythur (Rhwydwaith Aelodaeth a Grŵp Llywio) ac aelodaeth?
- Pa wahaniaeth y mae'n ei wneud i aelodau ac i'r agenda cynhwysiant digidol ehangach?
- Beth ddylai fod yn flaenoriaethau i'r gynghrair dros weddill cyfnod y rhaglen?

## G. Y gwahaniaeth a wnaed

Pa dystiolaeth sydd gennych bod CDC yn gwneud gwahaniaeth i sefydliadau iechyd sy'n sefydlu ac yn gweithredu arferion a pholisïau cynhwysiant digidol?

- Holwch am enghreifftiau lle mae hyn yn digwydd yn effeithiol
- Pa ffactorau sy'n galluogi cynhwysiant digidol i fod yn rhan annatod o waith cynllunio a chyflawni sefydliadau partner?
- Pa heriau a gododd wrth ymgorffori cynhwysiant digidol yng ngwaith cynllunio a chyflawni sefydliadau partner?

Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae CDC yn ei wneud i wella sgiliau a chymhwysedd digidol ar draws gweithlu darparwyr iechyd a gofal?

- Holwch am enghreifftiau lle mae hyn yn digwydd yn effeithiol
- Pa ffactorau sy'n galluogi llythrennedd a sgiliau digidol gwell ar draws y lleoliadau hyn?
- Pa rwystrau sy'n cyfyngu ar lythrennedd digidol a sgiliau gwell ar draws y lleoliadau hyn?

Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae CDC yn ei wneud i wella cysylltedd digidol darparwyr cartrefi gofal?

Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae CDC yn ei wneud i gyfranogwyr:

- Sgiliau digidol sy'n berthnasol i'w gwaith a'u bywydau
- Iechyd a llesiant
- Lefelau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?

## H. Monitro a rheoli

Pa newidiadau, os o gwbl, sydd wedi'u gwneud i natur ac ansawdd y data sy'n cael eu casglu a'i adrodd gan CDC?

- Beth yw eich barn am yr holiaduron/arolygon a gyflwynwyd yn ddiweddar i gasglu adborth gan gyfranogwyr a sefydliadau?
- Pa welliannau pellach, os o gwbl, y dylid eu gwneud i brosesau cipio a monitro data rhaglenni?

Pa newidiadau, os o gwbl, sydd wedi'u gwneud i'r ffordd y mae'r rhaglen CDC yn cael ei rheoli (gan Lywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru)?

- Beth sy'n gweithio'n dda?
- Beth y gellid ei wella?

## I. Perfformiad y rhaglen hyd yma

Beth yw eich barn am briodoldeb y gyfres ddiwygiedig o ddangosyddion perfformiad allweddol a'r canlyniadau a fabwysiadwyd ar gyfer CDC?

Beth yw eich barn am ba mor dda y mae CDC yn perfformio yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol a'i ganlyniadau?

- Pa ddangosyddion penodol allweddol/canlyniadau sy'n cael eu cyflawni neu y rhagorir arnynt? Beth sydd wedi galluogi'r perfformiad cryf hwn?
- Pa ddangosyddion perfformiad allweddol/canlyniadau nad ydynt yn cael eu bodloni? Pa ffactorau sydd i gyfrif am hyn? Pam nad yw'r dangosyddion perfformiad allweddol/canlyniadau hyn yn cael eu bodloni? Beth sydd angen ei newid er mwyn galluogi'r prosiect i gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol/canlyniadau hyn?

A yw CDC ar y trywydd iawn o ran gwariant? Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw danwariant neu orwariant?

## J. Y dyfodol

Beth yw’r gwersi allweddol a ddysgwyd ers mis Medi 2020?

Beth ddylai fod yn flaenoriaethau i CDC dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill?

# Canllaw pwnc 2: Swyddogion Llywodraeth Cymru

Bydd gan rai o staff Llywodraeth Cymru wybodaeth fanylach am CDC nag eraill a dylid gofyn y cwestiynau hynny mewn ffont coch i'r rheini, ond nid i eraill sydd wedi ymwneud â'r rhaglen i raddau llai.

### A: Cefndir a chyflwyniad

Dywedwch wrthyf am eich rôl / unrhyw newidiadau i'ch rôl ers i ni siarad ddiwethaf [ym mis Gorffennaf/Awst 2020]?

- [Fel y bo'n briodol] Ym mha ffordd ydych chi'n ymwneud â CDC?

### B: Nodau a chylch gwaith

[I'r rhai na chawsant eu cyfweld y tro diwethaf] Beth yw nodau ac amcanion CDC yn ôl eich dealltwriaeth chi?

[I'r rhai na chawsant eu cyfweld y tro diwethaf] Pa faterion allweddol ydych chi'n disgwyl i CDC fynd i'r afael â nhw? Pa wahaniaeth ydych chi'n disgwyl i CDC ei wneud o ran mynd i'r afael â'r materion allweddol hyn?

Pa newidiadau, os o gwbl, sydd wedi'u gwneud i gylch gwaith a blaenoriaethau'r rhaglen CDC ers mis Medi 2020?

Pa effaith y mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar y rhaglen ers mis Medi 2020?

- Pa effaith, os o gwbl, y mae'n ei chael ar broffil sefydliadau a chyfranogwyr sy'n ymgysylltu â CDC?
- Pa effaith, os o gwbl, y mae'n ei chael ar gymorth a darpariaethau?
- Pa mor dda, neu beidio, y mae'r rhaglen wedi gallu ymateb i'r heriau a gododd yn sgil y pandemig, yn eich barn chi?

[I'r rhai na chawsant eu cyfweld y tro diwethaf] Beth yw'r prif sbardunau polisi ar gyfer CDC?

Sut, os o gwbl, y mae dogfennau polisi a dogfennau strategol a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi dylanwadu ar raglen CDC? Holwch am:

- Rhagolwg Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru [30]
- Strategaeth Ddigidol i Gymru[31]

---

[30] Rhagolwg cynhwysiant digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus

[31] Strategaeth ddigidol i Gymru

- O gynhwysiant i wydnwch – agenda ar gyfer cynhwysiant digidol yng Nghymru[32],[33]

Ym mha ffordd y mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad gwerthusiad proses a damcaniaeth newid wedi cael eu hystyried gan y rhaglen?

- Beth fyddech chi'n ei nodi fel y prif newidiadau/ystyriaethau sydd wedi llywio model Damcaniaeth Newid presennol CDC (a ddatblygwyd gan y prosiect yn ddiweddar)?

### C: Gweithredu

Pa newidiadau, os o gwbl, sydd wedi'u gwneud i'r model cyflawni a roddwyd ar waith gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'r ddau bartner cyflawni er mwyn cyflawni CDC ers mis Medi 2020?

- Pa mor effeithiol yw'r newidiadau hyn?
- Sut, os o gwbl, y gellid gwella'r model cyflawni ymhellach?

Beth yw eich barn am lefel bresennol yr adnoddau ac arbenigedd y staff a benodwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'r partneriaid cyflawni?

- Beth yw cryfderau a gwendidau'r strwythur staffio?
- A oes unrhyw fylchau o ran arbenigedd?

### D. Hyrwyddo a chyfathrebu

Sut y mae'r galw am CDC wedi newid ers mis Medi 2020?

- O ran maint a natur y galw?
- Ymhlith sefydliadau partner?
- Ymhlith cyfranogwyr a gwirfoddolwyr?

Pa mor dda, neu beidio, y mae'r rhaglen yn ymgysylltu â'r buddiolwyr yn y pedwar grŵp targed[34]?

- Beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wneud yn wahanol i ymgysylltu'n well ag unrhyw un o'r grwpiau hyn?

Pa mor dda, neu beidio, y mae'r rhaglen yn ymgysylltu â sefydliadau partner, gan gynnwys byrddau iechyd?

[32] Symud o gynhwysiant i gydnerthedd – agenda ar gyfer cynhwysiant digidol yng Nghymru (Cymunedau Digidol Cymru)
[33] Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (gov.wales)
[34] pobl hŷn 50+; pobl o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith; pobl anabl a thenantiaid tai cymdeithasol

- Beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wneud yn wahanol i ymgysylltu'n well ag unrhyw un o'r grwpiau hyn?

Pa mor effeithiol fu gweithgareddau cyfathrebu a marchnata CDC ers mis Medi 2020?

- Sut y gellid gwella'r gweithgaredd cyfathrebu a marchnata?

### E. Darpariaethau i sefydliadau partner

Beth yw eich barn am ddarpariaeth CDC i sefydliadau?

Beth yw eich barn ar y cymorth a'r cyngor a ddarparwyd i sefydliadau?

- Beth oedd natur y cymorth a'r cyngor hwn?
- Pa mor effeithiol yw'r arolwg o sgiliau digidol hanfodol sydd newydd ei gyflwyno?
- Beth sydd wedi mynd yn dda?
- Pa heriau a gododd?

Beth yw eich barn ar yr hyfforddiant a ddarparwyd i sefydliadau (a/neu i gyfranogwyr)?

- Beth oedd natur yr hyfforddiant hwn?
- Beth sydd wedi mynd yn dda?
- Pa heriau a gododd?

Beth yw eich barn ar briodoldeb, ansawdd ac effeithiolrwydd y ffrydiau gwaith / mentrau eraill a gyflwynwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'i phartneriaid cyflawni hyd yn hyn fel rhan o CDC?

Holwch am:

- Cynlluniau Ymgynghori Digidol (a ddatblygwyd ar gyfer sefydliadau)
- Benthyca offer/cyfarpar i sefydliadau
- Cyfarpar ar gyfer cartrefi gofal
- Y rhaglen wirfoddoli Cyfeillion Digidol
- Y rhaglen wirfoddoli Hyrwyddwyr Digidol
- Cyrsiau Learn My Way
- Y Prosiectau Braenaru Cynhwysiant Digidol

I ba raddau y mae'r mentrau hyn wedi cael eu croesawu gan y sefydliadau targed?

- Holwch am lefel yr ymgysylltu yn ôl math o sefydliad (sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector)

- Holwch am ymgysylltu a barn gwirfoddolwyr a chyfranogwyr

### F. Y Gynghrair Cynhwysiant Digidol

Pa gynnydd y mae'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol wedi'i wneud?

- Beth oedd ei phrif gyflawniadau?
- Beth ydych chi'n gobeithio y bydd yn ei gyflawni?

Beth yw eich barn am effeithiolrwydd y gynghrair?

- Pa mor briodol yw ei strwythur (Rhwydwaith Aelodaeth a Grŵp Llywio) ac aelodaeth?
- Pa wahaniaeth y mae'n ei wneud i aelodau ac i'r agenda cynhwysiant digidol ehangach?
- Beth ddylai fod yn flaenoriaethau i'r gynghrair dros weddill cyfnod y rhaglen?

### G. Y gwahaniaeth a wnaed

Pa dystiolaeth sydd gennych bod CDC yn gwneud gwahaniaeth i sefydliadau iechyd sy'n sefydlu ac yn gweithredu arferion a pholisïau cynhwysiant digidol?

- Holwch am enghreifftiau lle mae hyn yn digwydd yn effeithiol
- Pa ffactorau sy'n galluogi cynhwysiant digidol i fod yn rhan annatod o waith cynllunio a chyflawni sefydliadau partner?
- Pa heriau a gododd wrth ymgorffori cynhwysiant digidol yng ngwaith cynllunio a chyflawni sefydliadau partner?

Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae CDC yn ei wneud i wella sgiliau a chymhwysedd digidol ar draws gweithlu darparwyr iechyd a gofal?

- Holwch am enghreifftiau lle mae hyn yn digwydd yn effeithiol
- Pa ffactorau sy'n galluogi llythrennedd a sgiliau digidol gwell ar draws y lleoliadau hyn?
- Pa rwystrau sy'n cyfyngu ar lythrennedd digidol a sgiliau gwell ar draws y lleoliadau hyn?

Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae CDC yn ei wneud i wella cysylltedd digidol darparwyr cartrefi gofal?

Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae CDC yn ei wneud i gyfranogwyr:

- Sgiliau digidol sy'n berthnasol i'w gwaith a'u bywydau

- Iechyd a llesiant
- Lefelau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?

## H. Monitro a rheoli

Pa newidiadau, os o gwbl, sydd wedi'u gwneud i natur ac ansawdd y data sy'n cael eu casglu a'i adrodd gan CDC?

- Beth yw eich barn am yr holiaduron/arolygon a gyflwynwyd yn ddiweddar i gasglu adborth gan gyfranogwyr a sefydliadau?
- Pa welliannau pellach, os o gwbl, y dylid eu gwneud i brosesau cipio a monitro data rhaglenni?

Pa newidiadau, os o gwbl, sydd wedi'u gwneud i'r ffordd y mae'r rhaglen CDC yn cael ei rheoli (gan Lywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru)?

- Beth sy'n gweithio'n dda?
- Beth y gellid ei wella?

## I. Perfformiad y rhaglen hyd yma

Beth yw eich barn am briodoldeb y gyfres ddiwygiedig o ddangosyddion perfformiad allweddol a'r canlyniadau a fabwysiadwyd ar gyfer CDC?

Beth yw eich barn am ba mor dda y mae CDC yn perfformio yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol a'i ganlyniadau?

- Pa ddangosyddion penodol allweddol/canlyniadau sy'n cael eu cyflawni neu y rhagorir arnynt? Beth sydd wedi galluogi'r perfformiad cryf hwn?
- Pa ddangosyddion perfformiad allweddol/canlyniadau nad ydynt yn cael eu bodloni? Pa ffactorau sydd i gyfrif am hyn? Pam nad yw'r dangosyddion perfformiad allweddol/canlyniadau hyn yn cael eu bodloni? Beth sydd angen ei newid er mwyn galluogi'r prosiect i gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol/canlyniadau hyn?

A yw CDC ar y trywydd iawn o ran gwariant? Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw danwariant neu orwariant?

## J. Y dyfodol

Beth yw’r gwersi allweddol a ddysgwyd ers mis Medi 2020?

Beth ddylai fod yn flaenoriaethau i CDC dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill?

## Canllaw pwnc 3: Astudiaeth achos – cynrychiolwyr o sefydliadau partner

### A: Cefndir a chyflwyniad

Dywedwch wrthyf am

- Eich rôl / unrhyw newidiadau i'ch rôl ers i ni siarad ddiwethaf
- [Yn ôl yr angen] Eich sefydliad
- Eich cysylltiad â CDC [dros y flwyddyn ddiwethaf]

Dywedwch wrthyf am

- Ddull ac amcanion eich sefydliad mewn perthynas â chynhwysiant digidol, a sut mae hyn wedi datblygu/newid dros amser
- I ba raddau y mae cynhwysiant digidol wedi’i ymgorffori ar draws y sefydliad (e.e. mewn cynlluniau corfforaethol, cyfrifoldeb ar lefel uwch/bwrdd)
- A oes gan eich sefydliad strategaeth ddigidol, a sut mae hon yn cael ei rhoi ar waith
- Pwy sy'n gyfrifol am gynhwysiant digidol o fewn y sefydliad?

### B: Ymwneud â CDC

[Fel y bo'n briodol] Pam wnaeth eich sefydliad ymwneud â'r rhaglen CDC?

- A oedd eich sefydliad yn rhan o unrhyw fentrau cynhwysiant digidol blaenorol?
- Sut y daeth eich sefydliad i glywed am / ymwneud â CDC?
- Pa faterion neu flaenoriaethau, os o gwbl, oeddech chi'n gobeithio y byddai CDC yn helpu eich sefydliad i fynd i'r afael â nhw?
- Ym mha ffordd oeddech chi'n disgwyl i CDC eich helpu i fynd i'r afael â'r materion/blaenoriaethau hyn?

Sut mae darpar dderbynyddion (fel defnyddwyr, gwirfoddolwyr a staff eich sefydliad) yn dod yn ymwybodol o'r rhaglen?

- Pa mor effeithiol yw'r dull hwn?
- Beth yw cryfderau'r dull hwn?
- Sut y gellid gwella'r dull gweithredu?

Beth yw proffil y cyfranogwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau CDC yn eich sefydliad?

- Beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wneud yn wahanol i ymgysylltu'n well â phedwar grŵp targed allweddol y rhaglen ( pobl hŷn 50+; oedran gweithio yn economaidd anweithgar ac yn ddi-waith; pobl anabl a thenantiaid tai cymdeithasol)?

Beth yw eich barn am weithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo CDC i sefydliadau targed a defnyddwyr terfynol?

- Beth fyddech chi'n ei nodi fel cryfderau?
- Beth y gellid ei wella neu ei newid?

## C: Gwasanaethau a ddefnyddiwyd

A yw eich sefydliad wedi manteisio ar unrhyw gymorth a chyngor gan CDC [dros y flwyddyn ddiwethaf]?

- Beth oedd natur y cymorth a'r cyngor hwn?
- A wnaethoch gymryd rhan mewn arolwg sgiliau digidol hanfodol? Os felly, pa mor ddefnyddiol oedd hyn?
- Pa faterion oedd y sefydliad yn ceisio mynd i'r afael â nhw?
- Sut y cafodd ei gyflwyno?
- Beth sydd wedi mynd yn dda?
- Pa heriau a gododd?

Ydych chi wedi manteisio ar unrhyw hyfforddiant drwy CDC [dros y flwyddyn ddiwethaf]?

- Beth oedd natur yr hyfforddiant hwn?
- Pwy sydd wedi bod yn rhan o'r hyfforddiant?
- Beth sydd wedi mynd yn dda?
- Ym mha ffordd y mae'r hyn a ddysgwyd wedi'i gyflwyno ar draws y sefydliad cyfan?

[Lle bo hynny'n berthnasol] Beth yw eich barn am ansawdd a pherthnasedd yr hyfforddiant a gawsoch drwy'r rhaglen CDC?

- Beth y gellid ei wella?

I ba raddau yr ydych wedi ymwneud, os o gwbl, â'r ffrydiau gwaith / mentrau canlynol a gyflwynwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'i phartneriaid cyflawni hyd yn hyn fel rhan o CDC?

Holwch am y mentrau canlynol ac ym mhob achos, holwch am natur eu hymwneud â hwy yn ogystal â chryfderau/gwendidau pob un:

- Cynlluniau Ymgynghori Digidol (a ddatblygwyd ar gyfer sefydliadau)

- Benthyca offer/cyfarpar i sefydliadau
- Cyfarpar ar gyfer cartrefi gofal
- Y rhaglen wirfoddoli Cyfeillion Digidol
- Y rhaglen wirfoddoli Hyrwyddwyr Digidol a'r cyrsiau Learn My Way
- Y Prosiectau Braenaru Cynhwysiant Digidol

Ym mha ffordd y mae eich cysylltiad â CDC wedi newid yn ystod y pandemig Covid-19?

- Pa weithgareddau ychwanegol y mae'r rhaglen wedi'u darparu i'ch sefydliad ers y dyfodiad COVID?
- Pa weithgareddau sydd wedi'u gohirio?
- Pa mor dda, neu beidio, ydych chi'n meddwl y mae'r rhaglen wedi gallu cefnogi eich sefydliad i ymateb i'r heriau a gododd yn sgil y pandemig?

## D. Y Gynghrair Cynhwysiant Digidol

A yw eich sefydliad wedi cael unrhyw gysylltiad â'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol? Os felly,

- Sut y buodd eich sefydliad yn ymwneud â'r gynghrair?
- Beth yw pwrpas y gynghrair, yn ôl eich dealltwriaeth chi?
- Beth yw eich barn am yr hyn y mae'r gynghrair wedi'i gyflawni?
- Ym mha ffordd y mae eich sefydliad yn elwa o fod yn rhan o'r gynghrair?
- A yw eich sefydliad wedi mabwysiadu Siarter y Gynghrair Cynhwysiant Digidol, ac os felly, pa wahaniaeth y mae hyn yn ei wneud?
- Beth ddylai fod yn flaenoriaethau i'r gynghrair ar gyfer y dyfodol?

## E. Y gwahaniaeth a wnaed

Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae eich ymwneud â CDC wedi'i wneud i'ch sefydliad?

- Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r ffordd y mae eich sefydliad yn cynllunio gwasanaethau (gan gynnwys unrhyw strategaethau a dulliau gweithredu cynhwysiant digidol)?
- Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r gwasanaethau a ddarperir gan eich sefydliad?
- Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r ffordd y mae cynhwysiant digidol wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad?
- Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i bwy sy'n ymwneud â chynllunio a darparu cynhwysiant digidol o fewn y sefydliad?

- Pa ffactorau sydd wedi galluogi neu gyfyngu mwy o waith cynllunio a chyflawni cynhwysiant digidol o fewn y sefydliad?

Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae eich cysylltiad â CDC wedi'i wneud i wella sgiliau a chymhwysedd llythrennedd digidol ar draws eich gweithlu?

- Pa ffactorau sydd wedi galluogi llythrennedd digidol a sgiliau gwell ar draws eich sefydliad?
- Pa rwystrau sydd wedi cyfyngu ar lythrennedd digidol a sgiliau gwell ar draws eich sefydliad?

[Darparwyr cartrefi gofal yn unig] Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae eich cysylltiad â CDC wedi'i wneud i wella cysylltedd digidol yn eich cartref gofal?

Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae eich ymwneud â CDC wedi'i wneud i'ch cyfranogwyr o ran:

- Sgiliau digidol sy'n berthnasol i'w gwaith a'u bywydau
- Iechyd a llesiant
- Lefelau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?

## F. Monitro a rheoli

Beth yw eich barn am y data y mae'n ofynnol i'ch sefydliad eu cofnodi ac adrodd arnynt i Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o'r rhaglen CDC?

- A ydych wedi llenwi unrhyw holiaduron cyn ac ar ôl yr ymyrraeth?
- Pa mor hawdd neu beidio yw'r rhain i'w cwblhau?

## G. Y dyfodol

Ym mha ffordd ydych chi'n rhagweld y byddwch chi'n ymgysylltu â CDC dros weddill cyfnod y rhaglen?

- Pa gymorth/hyfforddiant y mae eich sefydliad yn debygol o fod ei angen?

Beth yw'r prif wersi a ddysgwyd o CDC hyd yn hyn y mae angen i'r rhaglen eu hystyried yn ystod y cyfnod cyflawni sy'n weddill?

# Canllaw pwnc 4: Astudiaeth achos – cynrychiolydd o CDC

### A: Cefndir a chyflwyniad

Dywedwch wrthyf am

- Eich rôl a sut yr ydych wedi bod yn ymwneud â sefydliad yr astudiaeth achos

### B: Gwasanaethau a ddarperir

Ym mha ffordd yr ydych wedi cefnogi a chynghori sefydliad yr astudiaeth achos?

- Beth fu natur unrhyw gymorth a chyngor?
- A wnaeth y sefydliad gymryd rhan mewn arolwg sgiliau digidol hanfodol?
- Pa faterion oedd y sefydliad yn ceisio mynd i'r afael â nhw?
- Sut y cafodd ei gyflwyno?
- Beth sydd wedi mynd yn dda?
- Pa heriau a gododd?

Pa hyfforddiant a oedd ar gael i'r sefydliad sy'n astudiaeth achos?

- Beth oedd natur yr hyfforddiant hwn?
- Pwy sydd wedi bod yn rhan o'r hyfforddiant?
- Beth sydd wedi mynd yn dda?
- Ym mha ffordd y mae'r hyn a ddysgwyd wedi'i gyflwyno ar draws y sefydliad cyfan?

Pa gysylltiad, os o gwbl, y mae'r sefydliad astudiaeth achos wedi'i gael gyda'r canlynol ffrydiau gwaith / mentrau a ddarperir gan CDC?

Holwch am y mentrau canlynol ac ym mhob achos, holwch am natur eu hymwneud â hwy yn ogystal â chryfderau/gwendidau pob un:

- Cynlluniau Ymgynghori Digidol (a ddatblygwyd ar gyfer sefydliadau)
- Benthyca offer/cyfarpar i sefydliadau
- Cyfarpar ar gyfer cartrefi gofal
- Y rhaglen wirfoddoli Cyfeillion Digidol
- Y rhaglen wirfoddoli Hyrwyddwyr Digidol
- Cyrsiau Learn My Way
- Y Prosiectau Braenaru Cynhwysiant Digidol

## E. Y gwahaniaeth a wnaed

Pa wahaniaeth y mae CDC wedi'i wneud i sefydliad yr astudiaeth achos?

- Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r ffordd y mae'r sefydliad yn cynllunio gwasanaethau (gan gynnwys unrhyw strategaethau a dulliau gweithredu cynhwysiant digidol)?
- Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad?
- Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r ffordd y mae cynhwysiant digidol wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad?
- Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i bwy sy'n ymwneud â chynllunio a darparu cynhwysiant digidol o fewn y sefydliad?

Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae CDC wedi'i wneud i wella sgiliau a chymhwysedd llythrennedd digidol ar draws y gweithlu?

- Pa ffactorau sydd wedi arwain at wella llythrennedd digidol a sgiliau digidol ar draws y gweithlu?
- Pa ffactorau sydd wedi cyfyngu ar wella llythrennedd digidol a sgiliau digidol ar draws y gweithlu?

[Darparwyr cartrefi gofal yn unig] Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae CDC wedi'i wneud i wella cysylltedd digidol yn y cartref gofal?

Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae eich ymwneud â CDC wedi'i wneud i'ch cyfranogwyr o ran:

- Sgiliau digidol sy'n berthnasol i'w gwaith a'u bywydau
- Iechyd a llesiant
- Lefelau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?

## D. Y dyfodol

Pa gymorth neu hyfforddiant pellach y mae sefydliad yr astudiaeth achos yn debygol o fod ei angen gan CDC?

# Canllaw pwnc 5: Astudiaeth achos – gwirfoddolwyr a chyfranogwyr

### A: Cefndir a chyflwyniad

Dywedwch wrthyf am

- Chi eich hun (gwaith, diddordebau, teulu, p’un a yw’r cyfranogwr yn perthyn i un o’r pedwar grŵp targed – pobl hŷn 50+; pobl o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar a di-waith; pobl anabl a thenantiaid tai cymdeithasol)
- Sut ydych chi wedi bod yn ymwneud â sefydliad yr astudiaeth achos (ers pryd, y rheswm dros ymgysylltu â nhw ac ati)
- Eich ymwneud blaenorol â gweithgaredd digidol (e.e. pa dechnoleg gwybodaeth oeddech chi'n ei ddefnyddio/oeddech chi’n gyfarwydd ag ef, at ba ddibenion yr oeddech chi ddefnyddio cyfarpar TG/digidol, unrhyw waith gwirfoddoli blaenorol)

### B: Ymwneud â CDC

Pam wnaethoch chi gymryd rhan yn y rhaglen CDC? [rhowch eglurder ynghylch yr hyn y gallai hyn fod wedi ei olygu e.e. sesiynau digidol, hyfforddiant ac ati a defnyddiwch y derminoleg hon drwyddi draw]

- Beth oeddech chi’n gobeithio ei gyflawni drwy'r rhaglen [fel cyfranogwr/gwirfoddolwr]?
- Sut y daethoch i glywed am y rhaglen/cyfle?

### C: Gwasanaethau a ddefnyddiwyd

Ym mha ffordd yr ydych chi wedi bod yn ymwneud â rhaglen CDC?

- Beth fu natur unrhyw gymorth a chyngor a gafwyd/rannwyd?
- Beth fu natur unrhyw hyfforddiant a gafwyd/rannwyd?
- Holwch am hyd, dull (rhithwir/wyneb yn wyneb), pwy oedd yn ei ddarparu (mudiad neu dîm CDC), pa gyfarpar a ddefnyddiwyd ac ati.

Beth ydych chi wedi'i ennill/dysgu o'ch ymwneud â'r rhaglen CDC?

- Pa sgiliau neu wybodaeth newydd ydych chi wedi'u hennill/rhannu?
- {Cyfranogwyr} Ydych chi wedi defnyddio'r sgiliau neu'r wybodaeth newydd hyn mewn unrhyw ffordd ers hynny?

- {Cyfranogwyr} Pa gymwysterau ydych chi wedi'u hennill?
- Ydych chi wedi rhannu unrhyw sgiliau neu wybodaeth newydd ag eraill?

Beth yw eich barn am ansawdd a pherthnasedd unrhyw gymorth a hyfforddiant a gawsoch?

- Beth yw eich barn am ansawdd a gwybodaeth y cynghorydd/hyfforddwr?
- Beth sydd wedi mynd yn dda?
- Beth y gellid ei wella?

## D. Y gwahaniaeth a wnaed

[I gyfranogwyr] Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae eich ymwneud â'r rhaglen wedi'i wneud i chi?  Holwch am unrhyw wahaniaeth i:

- Sgiliau digidol sy'n berthnasol i'ch gwaith a'ch bywyd:
    - Pa sgiliau newydd ydych chi wedi'u dysgu?
    - Sut ydych chi'n defnyddio'r sgiliau newydd hyn yn eich gwaith a'ch bywydau bob dydd?
- Eich iechyd a'ch llesiant
    - Ym mha ffordd y mae eich ymwneud â’r rhaglen wedi helpu i gael mynediad at wasanaethau iechyd a llesiant yn ddigidol?
    - neu wedi eich helpu i reoli eich iechyd yn well gan ddefnyddio technoleg?
- Eich teimladau o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol:
    - Ym mha ffordd y mae eich ymwneud â’r rhaglen wedi eich helpu i gysylltu â ffrindiau a theulu gan ddefnyddio technoleg?

[I wirfoddolwyr] Ym mha ffordd yr ydych wedi elwa o gymryd rhan fel gwirfoddolwr ar y rhaglen?

[I wirfoddolwyr] Pa wahaniaeth y mae'r rhaglen wedi'i wneud, os o gwbl, i gyfranogwyr yr ydych wedi bod yn eu cefnogi/gweithio gyda nhw? Holwch am wahaniaethau i sgiliau digidol, iechyd a llesiant ac unigrwydd/ynysu cymdeithasol

## E. Y dyfodol

Ym mha ffordd yr ydych chi'n rhagweld y byddwch yn ymgysylltu â'r rhaglen yn y dyfodol?

- [Cyfranogwyr] Pa gymorth/hyfforddiant pellach yr hoffech ei gael? Sut y byddai'r cymorth neu'r hyfforddiant hwnnw'n eich helpu yn y dyfodol?

- [Gwirfoddolwyr] A ydych yn bwriadu parhau i wirfoddoli gyda'r rhaglen yn y dyfodol? Os felly, ym mha ffordd?

## Arolwg ar-lein: Aelodau DIAW

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Ymchwil OB3 i werthuso Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, rydym yn dymuno casglu adborth wrth aelodau Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru a byddem yn ddiolchgar petai modd ichi gwblhau'r holiadur cryno hwn ar yr elfen yma o'r rhaglen.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth ynghyd â Hysbysiad Preifatrwydd yma: ob3research.co.uk/privacy-notice-dcw-survey-dia.

**A hoffech gwblhau'r holiadur yma yn:**

**Would you like to complete this questionnaire in:**

- ❑ English
- ❑ y Gymraeg

**Pa un o'r sectorau canlynol ydych chi'n ei gynrychioli/gweithio ynddo?**

- ❑ Y sector cyhoeddus
- ❑ Y sector preifat
- ❑ Trydydd sector
- ❑ Sector academaidd
- ❑ Arall

*Nodwch y sector arall hwn:*

____________________________________________

**Ym mha ffordd ydych chi'n ymwneud â'r Gynghrair?**

- ❑ Aelod o Rwydwaith y Gynghrair
- ❑ Aelod o'r Grŵp Llywio
- ❑ Ddim yn gwybod

**Pa mor aml ydych chi wedi mynychu cyfarfodydd chwarterol?**

| | *Pob un* | *Mwyafrif* | *Rhai* | *Dim un* |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd Rhwydwaith y Gynghrair | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cyfarfodydd y Grŵp Llywio | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**Ym mha ffordd oeddech chi (neu eich sefydliad) yn gobeithio ei elwa o fod yn aelod o'r Gynghrair?**

**Beth, os o gwbl, ydych chi (neu eich sefydliad) yn ei gael yn ddefnyddiol am fod yn aelod o'r Gynghrair?**

- ❑ Cael mynediad at enghreifftiau o arfer gorau cynhwysiant digidol
- ❑ Datblygu/cynnal cysylltiadau ledled Cymru
- ❑ Cymryd rhan mewn dadleuon am faterion cynhwysiant digidol.
- ❑ Arall

*Nodwch elfennau eraill o'r Gynghrair sy'n ddefnyddiol i chi os gwelwch yn dda:*

**Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n aelodau o'r Gynghrair fabwysiadu Siarter Cynhwysiant Digidol Cymunedau Digidol Cymru.**

**A yw eich sefydliad wedi mabwysiadu'r siarter hon?**

- ❑ Ydi
- ❑ Ddim eto, rydym yn gweithio arno
- ❑ Nac ydi, nid ydym eto wedi dechrau gweithio arno
- ❑ Ddim yn gwybod

**Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae mabwysiadu'r siarter wedi'i wneud i'ch sefydliad?**

**Mae'r Gynghrair wedi nodi pum maes blaenoriaeth i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu cael gafael ar, ac yn elwa o, dechnoleg ddigidol.**

**Pa wahaniaeth ydych chi'n disgwyl y bydd y blaenoriaethau hyn yn ei gael ar allgau digidol yng Nghymru?**

| | *Gwahaniaeth sylweddol* | *Rhywfaint o wahaniaeth* | *Dim gwahaniaeth penodol* | *Dim gwahaniaeth o gwbl* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgorffori cynhwysiant digidol ar draws pob sector | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Prif ffrydio cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mynd i'r afael â thlodi data | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Blaenoriaethu sgiliau digidol yn yr economi ar ôl Covid | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gosod safon byw digidol ofynnol newydd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**Ym mha ffordd ydych chi'n disgwyl i'ch sefydliad eich hun gyfrannu at unrhyw un o'r pum maes blaenoriaeth yma?**

____________________________________________________________

**Beth fyddech chi'n ei nodi fel prif gyflawniad(au) y Gynghrair hyd yma?**

____________________________________________________________

**Ym mha ffordd, os o gwbl, y gellid gwella neu ddarparu'r Gynghrair yn wahanol?**

____________________________________________________________

**Beth fyddech chi'n ei nodi fel blaenoriaethau'r Gynghrair yn y dyfodol?**

____________________________________________________________